# Rhaglen Gyflawn

**Adran y Prif Weithredwr**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**Y CYNGOR**

Dyddiad ac Amser

**1.00 y.h., DYDD IAU, 30AIN MEHEFIN, 2016**

***NODER**

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**[http://www.gwynedd.public-i.tv/core/portal/home](http://www.gwynedd.public-i.tv/core/portal/home)**

Lleoliad

**Siambr Dafydd Orwig, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD 23/06/16)

**Dilwyn Williams**
**Prif Weithredwr**

[www.gwynedd.llyw.cymru](http://www.gwynedd.llyw.cymru)

**DYDD IAU, 23 MEHEFIN 2016**

Annwyl Gynghorydd,

**CYFARFOD O GYNGOR GWYNEDD – DYDD IAU, 30 MEHEFIN 2016**

**FE'CH GWYSIR TRWY HYN** i gyfarfod o **GYNGOR GWYNEDD** a gynhelir am **1.00 y.h., DYDD IAU** nesaf, **DYDD IAU, 30AIN MEHEFIN, 2016 YN SIAMBR DAFYDD ORWIG, SWYDDFA'R CYNGOR, CAERNARFON, GWYNEDD, LL55 1SH, SWYDDFA'R CYNGOR, CAERNARFON**, i ystyried y materion a grybwyllir yn y rhaglen a ganlyn.

Yr eiddoch yn gywir



<u>Prif Weithredwr</u>

Bydd yr ystafelloedd a ganlyn ar gael i'r grwpiau gwleidyddol yn ystod y bore:-

Plaid Cymru - Siambr Dafydd Orwig
Annibynnol – Siambr Hywel Dda
Llais Gwynedd – Ystafell Gwyrfai
Democratiaid Rhyddfrydol - Ystafell Peris
Llafur – Cefn Siambr Dafydd Orwig

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. COFNODION** 5 - 14

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 12 Mai, 2016 fel rhai cywir (ynghlwm).

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

**5. GOHEBIAETH, CYFATHREBIADAU, NEU FUSNES ARALL**

Derbyn unrhyw ohebiaeth, gyfathrebiadau neu fusnes arall a ddygir gerbron yn arbennig dan gyfarwyddyd y Cadeirydd.

**6. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**7. CWESTIYNAU**

Ystyried unrhyw gwestiynau y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt o dan Adran 4.19 o'r Cyfansoddiad.

**8. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR STATUDOL GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2015/16** 15 - 38

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Statudol a Chyfarwyddwr Corfforaethol (ynghlwm).

**9. RHYBUDDION O GYNNIG**

**(A) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD ANNWEN HUGHES**

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrthi o dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Annwen Hughes yn cynnig fel a ganlyn:-

**"Fel Cynghorwyr, rydym yn gwbl ymwybodol o'r dioddefaint a orfodir ar nifer o drigolion Gwynedd o ganlyniad i doriadau ariannol llym**

**llywodraeth San Steffan. Credwn, fodd bynnag, bod dewis arall i'r ymosodiad ideolegol yma ar wasanaethau cyhoeddus sy'n cael effaith andwyol ar bobl leol. Y dewis amgen yw trethu a hynny trwy drethiant trafodion ariannol ar weithgareddau sydd wedi cyflymu cyfoeth nifer o fancwyr barus Llundeinig yn ddiweddar, ar draul tlodi'r boblogaeth ehangach. Erfyniaf ar Gynghorwyr Gwynedd i gefnogi fy ngalwad ar Lywodraeth San Steffan i wneud defnydd helaeth o'r dreth trafodion ariannol, treth Twm Sion Cati, gan ddefnyddio'r arian i wrthdroi'r lleihad parhaus yn y grant canolog gaiff ei ddyrannu i gynghorau sir, gan gynnwys Gwynedd."**

## (B) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD MANDY WILLIAMS DAVIES

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrthi o dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Mandy Williams Davies yn cynnig fel a ganlyn:-

**"Bod Cyngor Gwynedd yn galw ar fanc HSBC i ail ystyried eu penderfyniad i gau eu canghennau ym Mlaenau Ffestiniog, Abermaw a Thywyn, gan ddatgan ein pryder am yr effaith negyddol ar fusnesau a thrigolion yn y trefi allweddol yma o'r sir."**

# Y CYNGOR DYDD IAU, 12 MAI 2016

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Eric Merfyn Jones (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Annwen Daniels (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Stephen Churchman, Anwen Davies, Lesley Day, Dyfed Edwards, Elwyn Edwards, Trevor Edwards, Thomas Ellis, Aled Evans, Gweno Glyn, Simon Glyn, Gwen Griffith, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Sian Gwenllian, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Sian Wyn Hughes, Peredur Jenkins, Aeron M.Jones, Aled Wyn Jones, Anne Lloyd Jones, Brian Jones, Charles W.Jones, Elin Walker Jones, John Wynn Jones, Linda A.W.Jones, Sion Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Beth Lawton, Dilwyn Lloyd, June E.Marshall, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Dewi Owen, Michael Sol Owen, W.Roy Owen, William Tudor Owen, Nigel Pickavance, Peter Read, Caerwyn Roberts, Gareth A.Roberts, John Pughe Roberts, W.Gareth Roberts, Mair Rowlands, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Mike Stevens, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Hefin Underwood, Ann Williams, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gruffydd Williams, John Wyn Williams, Owain Williams, R.H.Wyn Williams, Mandy Williams-Davies ac Eurig Wyn.

**Hefyd yn bresennol:** Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol / Swyddog Monitro), Rhun ap Gareth (Uwch Gyfreithiwr / Dirprwy Swyddog Monitro), Arwel E.Jones (Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Craig ab Iago, Endaf Cooke, Gwynfor Edwards, Alan Jones Evans, Jean Forsyth, Chris Hughes, Louise Hughes, Jason Humphreys, Dyfrig Jones, Christopher O'Neal, Glyn Thomas, Gethin Glyn Williams a Hefin Williams.

Rhoddwyd anerchiad gan y Cynghorydd Dilwyn Morgan, Cadeirydd 2015/16.

**1. CADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Eric Merfyn Jones yn gadeirydd am 2016/17.

Llofnododd y Cynghorydd Eric Merfyn Jones ddatganiad yn derbyn y swydd o Gadeirydd Cyngor Gwynedd am 2016/17.

**2. IS-GADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Annwen Daniels yn is-gadeirydd am 2016/17.

Llofnododd y Cynghorydd Annwen Daniels ddatganiad yn derbyn y swydd o is-gadeirydd Cyngor Gwynedd am 2016/17.

**3. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfodydd o'r Cyngor a gynhaliwyd ar y dyddiadau isod fel rhai cywir:-

(i) 3 Mawrth, 2016
(ii) 18 Mawrth, 2016 (cyfarfod arbennig)

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

'Roedd yr aelodau wedi derbyn nodyn briffio ymlaen llaw gan y Swyddog Monitro ynglŷn ag eitem 14 ar y rhaglen – Cyflogau Aelodau.

Oherwydd natur yr adroddiad ar Gyflogau Aelodau, ac er mwyn cydymffurfio â gofynion y Cod Ymddygiad, datganodd y Cadeirydd fuddiant personol yn yr eitem ar ran yr holl aelodau oedd yn bresennol, ond gan nad oedd yn fuddiant sy'n rhagfarnu, byddai gan yr aelodau yr hawl i gymryd rhan yn y drafodaeth ac i bleidleisio ar y mater.

**5. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

(1) Cydymdeimlad

Cydymdeimlwyd â'r canlynol:-

- Y Cynghorydd John Brynmor Hughes ar farwolaeth ei fam.
- Y Cynghorydd Linda A.W.Jones ar farwolaeth ei mam.

(2) Llongyfarchiadau

Llongyfarchwyd y canlynol:-

- Y Cynghorydd Alan Jones Evans a'i wraig ar eu priodas yn ddiweddar.
- Y Cynghorydd Christopher O'Neal a'i wraig ar enedigaeth efeilliaid – dwy ferch fach.
- Y Cynghorydd Sian Gwenllian a'r Arglwydd Elis-Thomas ar eu hethol yn Aelodau Cynulliad. Rhoddodd y Cynghorydd Sian Gwenllian anerchiad byr gan ddiolch i'w chyd-aelodau a'r swyddogion am bob cymorth a chefnogaeth ar hyd y blynyddoedd.
- Arfon Jones ar gael ei ethol yn Gomisiynydd Heddlu Gogledd Cymru.

**6. ADRODDIAD BLYNYDDOL SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU**

Croesawyd Huw Lloyd Jones a Jeremy Evans o Swyddfa Archwilio Cymru i'r cyfarfod.

Cyflwynwyd – Adroddiad Gwella Blynyddol 2015-16 Cyngor Gwynedd ynghyd â blaen adroddiad gan y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol yn gosod y cyd-destun.

Rhoddwyd arweiniad byr gan yr Arweinydd ac yna gwahoddwyd Huw Lloyd Jones i roi cyflwyniad llafar ar Adroddiad Gwella Blynyddol 2015-16.

Yn ei gyflwyniad, eglurodd Huw Lloyd Jones nad oedd yr adroddiad yn ymgais i gyflwyno darlun hollol gynhwysfawr o waith y Cyngor, eithr yn crynhoi'r holl waith archwilio a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn yng Ngwynedd, ynghyd â sylwadau Estyn, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg. Rhoddodd amlinelliad o'r prif resymau oedd wedi arwain at farn yr Archwilydd Cyffredinol fod y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2016-17 ac ymhelaethodd ar brif ganfyddiadau tair thema'r gwaith, sef perfformiad mewn rhai meysydd penodol, y ffordd mae'r Cyngor yn defnyddio ei adnoddau ac agweddau o lywodraethiant.

Gwahoddwyd cwestiynau / sylwadau gan yr aelodau. Codwyd nifer o faterion, gan gynnwys:-

- Y gofyn i sicrhau gwelliant parhaus mewn cyfnod o doriadau.

- Y ffioedd a godir gan y Swyddfa Archwilio am eu gwaith.
- Atebolrwydd yr Asiantaeth Cefnffyrdd a'r angen i'r Gweinidog hefyd fod yn fwy atebol a thryloyw a pheidio atal gweithwyr Gwynedd yn yr Asiantaeth Cefnffyrdd rhag ymateb yn uniongyrchol i ymholiadau gan drigolion a chynghorwyr lleol.
- Y rhaniad presennol rhwng gwaith y Cabinet a chraffu.
- Manteision posib' trefn Cabinet Cysgodol / Aelodau Cabinet Cysgodol.
- Yr her sy'n wynebu'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau o ystyried bod tua 75% o gyllideb y Cyngor yn cael ei wario yn y meysydd sy'n cael eu craffu gan y pwyllgor hwnnw.
- Boddhad o ddeall bod y Cyngor yn parhau i wella mewn meysydd o flaenoriaeth a bod ganddo drefniadau rheoli arian cadarn.
- Y gydnabyddiaeth bod yna wendidau yn y trefniadau craffu, yr argymhellion ar sut i wella a'r amserlen ar gyfer hynny.
- Boddhad bod argymhelliad adroddiad cenedlaethol 2015-16 parthed datblygu arweinwyr effeithiol a denu'r dalent orau yn cydnabod y broblem o ddenu arweinwyr safonol.
- Y cynnydd arafach na'r disgwyl yn y maes addysg anghenion arbennig.

Diolchwyd i Huw Lloyd Jones a Jeremy Evans am eu harweiniad i'r aelodau ynglŷn â sut i wella Gwynedd.

**7. Y REFFERENDWM AR AELODAETH O'R UNDEB EWROPEAIDD**

Ymneilltuodd y Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol / Swyddog Monitro o'r cyfarfod oherwydd ei swyddogaeth statudol fel Swyddog Monitro.

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad yn:-

(a) Ceisio safbwynt y Cyngor ar fater y refferendwm ar aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd, ac yn benodol y cwestiwn a fyddai mwy o fudd yn deillio i drigolion Gwynedd o fod yn parhau i fod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd ai peidio.

(b) Argymell bod y Cyngor yn datgan ei fod o'r farn y byddai yna fwy o fudd yn deillio i drigolion Gwynedd o fod yn parhau i fod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd.

Ymhellach i gynnwys yr adroddiad, nododd yr Arweinydd:-

- Bod Gwynedd wedi elwa o £158m o gronfeydd Ewropeaidd ers 2000 a bod hynny wedi creu buddsoddiad o £300m i'r sir yn ystod y cyfnod yma.
- Na chredai y byddai modd i Wynedd ddenu'r fath symiau o arian o unrhyw ffynhonnell arall.
- Bod rhai o'r prosiectau yng Ngwynedd sydd wedi elwa o arian Ewropeaidd yn cynnwys Pont Briwet (gwerth bron i £20m); Plas Heli, Pwllheli (bron i £9m), Cynllun Adfywio Blaenau Ffestiniog (£4.5m), Canolfan Ragoriaeth Eryri (£4.5m) a Llwyddo'n Lleol (cyfwerth â £3.2m o fuddsoddiad i Wynedd).

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd:-

- Mai hwn oedd yr un mater pwysicaf i wynebu'r DU mewn cenhedlaeth.
- Bod gan fusnesau yng Nghymru fynediad at 500,000 o gwsmeriaid yn yr Undeb Ewropeaidd. Hyd yma, bu hynny'n rhydd o dariff, ond petai'r DU yn gadael yr UE, byddai tariff yn cael ei godi ar yr holl fasnach sy'n mynd i Ewrop fel allforion a mewnforion, fyddai'n golygu mwy o gost i'r defnyddiwr, costau uwch i fusnesau a difrod i'r economi.
- Bod 71% o fusnesau sy'n aelodau o'r CBI yn dweud bod aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd wedi cael effaith bositif ar fusnesau a bod 67% o'r holl aelodau sy'n fusnesau bach a chanolig hefyd yn rhannu'r un farn.

- Y gellid dadlau ein bod yn derbyn £10 am bob £1 'rydym yn ei dalu i'r Undeb Ewropeaidd, nid o reidrwydd yn uniongyrchol fel arian, ond ar ffurf y manteision sy'n deillio o fasnachu gyda'r UE, e.e. prisiau isel, twf swyddi a masnach.
- Y gallai aros yn yr UE greu 790,000 o swyddi ychwanegol yn yr UE dros y 15 mlynedd nesaf.
- Bod asesiad annibynnol yn cyfrifo bod 190,000 o swyddi yng Nghymru gyda chysylltiadau masnach â'r UE, sef un swydd ymhob wyth.
- Bod mwy na 50,000 yn cael eu cyflogi mewn amaethyddiaeth yng Nghymru ac amaethyddiaeth yw un o'r enillwyr mwyaf drwy'r polisi amaethyddol cyffredin.
- Y byddai gadael yr UE yn arwain at golli'r holl gymorthdaliadau ac yn golygu mewnforion ac allforion mwy costus. Hefyd, o bosib' y byddai yna dariff o 40% ar ffermio.
- Bod y swm a delir i'r Undeb Ewropeaidd yn hynod fach o gymharu â'r hyn a delir am wasanaethau hanfodol eraill, ond bod yr enillion yn nhermau masnach a chyfleoedd am swyddi yn llawer mwy na'r hyn mae'n gostio.
- Bod angen cryfhau pwerau Pwyllgor y Rhanbarthau a galwyd ar yr Arweinydd a'r Aelod Cynulliad newydd dros Arfon i gyflwyno'r neges i Lywodraeth Cymru fod angen i bwysau ddod o Senedd Cymru i gryfhau pwerau a grym Pwyllgor y Rhanbarthau.
- Bod Cymru'n rhan o'r bloc economaidd Ewropeaidd a'i bod yn bwysig cynnal y bloc a'i gryfhau.
- Bod grantiau Ewropeaidd yn sbardun i gymunedau gymryd cyfrifoldeb drostynt eu hunain.
- Bod Cymru wedi cael ei dynodi fel Ardal Entrepreneuraidd Ewrop ar gyfer 2017, a chan fod 2 o bob 3 swydd yn y sector breifat yn Ewrop mewn busnesau micro neu ganolig, tebyg i Wynedd, byddai rhoi sylw ar blatfform Ewropeaidd i'r math o fusnesau sydd yng Ngwynedd yn cael effaith bositif.

Eiliwyd argymhelliad yr adroddiad.

Galwyd am bleidlais gofrestredig ar y cynnig.

Yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn, cofnodwyd y bleidlais ganlynol:-

**O blaid: (48)** Y Cynghorwyr – Stephen Churchman, Annwen Daniels, Anwen Davies, Dyfed Edwards, Elwyn Edwards, Thomas Ellis, Aled Evans, Gweno Glyn, Simon Glyn, Gwen Griffith, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Annwen Hughes, Sian Wyn Hughes, Peredur Jenkins, Aled Wyn Jones, Anne Lloyd Jones, Brian Jones, Charles W.Jones, Elin Walker Jones, Eric Merfyn Jones, John Wynn Jones, Sion Wyn Jones, Beth Lawton, Dilwyn Lloyd, June E.Marshall, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Dewi Owen, Michael Sol Owen, William Tudor Owen, Caerwyn Roberts, Gareth A.Roberts, John Pughe Roberts, W.Gareth Roberts, Mair Rowlands, Dyfrig Siencyn, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Hefin Underwood, Ann Williams, Gruffydd Williams, John Wyn Williams, Owain Williams, R.H.Wyn Williams, Mandy Williams-Davies ac Eurig Wyn.

**Yn erbyn: (3)** Y Cynghorwyr – John Brynmor Hughes, Peter Read a Mike Stevens.

**Yn atal: (5)** Y Cynghorwyr – Lesley Day, Aeron M.Jones, Eryl Jones-Williams, Nigel Pickavance, Angela Russell ac Elfed Williams.

**PENDERFYNWYD datgan bod y Cyngor hwn o'r farn y byddai mwy o fudd yn deillio i drigolion Gwynedd o fod yn parhau i fod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd.**

**8. DIWYGIADAU I'R COD YMDDYGIAD ENGHREIFFTIOL**

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad yn gwahodd y Cyngor i fabwysiadu cyfres o newidiadau i rai elfennau allweddol o'r Cod Ymddygiad presennol, yn sgil cyflwyno Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) (Diwygio) 2016 ar 1 Ebrill, 2016.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r newidiadau i'r Cod Ymddygiad ar Gyfer Aelodau yn unol â'r adroddiad.**

**9. ADRODDIAD BLYNYDDOL CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD YNG NGHYSWLLT CEFNOGAETH I AELODAU**

(a) Cyflwynodd y Cynghorydd Thomas G.Ellis, Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd adroddiad blynyddol yn diweddaru'r aelodau ynghylch y gefnogaeth sydd ar gael, y datblygiadau sydd wedi'u gwireddu a'r datblygiadau sydd ar waith.

(b) Adroddwyd bod angen dewis Cadeirydd ar gyfer 2016/17.

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Thomas G.Ellis yn Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd am 2016/17.**

**10. CYFLOGAU AELODAU**

Cyflwynodd y Cynghorydd Thomas G.Ellis, Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd adroddiad ar ran is-grŵp o'r pwyllgor yn argymell y ffordd ymlaen o ran cyflogau aelodau etholedig.

Gan gyfeirio at yr argymhelliad i gadw lefelau cyflogau Aelodau Cabinet a Chadeiryddion Pwyllgorau ar Lefel 1, cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant i ostwng y lefelau cyflogau i Lefel 2, ar y sail y byddai hynny'n arbed oddeutu £40,000 i'w wario mewn meysydd eraill ac yn dangos i drigolion y sir fod y Cyngor yn fodlon rhannu'r boen yn y cyfnod presennol o galedi.

Mynegodd rhai aelodau eu gwrthwynebiad i'r gwelliant ar y sail:-

- Er bod lle bob amser i edrych ar gyflogau'r holl aelodau, mai camgymeriad fyddai gwahanu dyletswyddau'r Aelodau Cabinet oddi wrth y cyflog gan y byddai'r dyletswyddau yn aros yr un fath, ond y cyflog yn gostwng.
- Bod yr Aelodau Cabinet wedi eu penodi i'r swyddi'n llawn-amser a bod rhai wedi rhoi'r gorau i swyddi eraill neu wedi gorfod gwneud trefniadau arbennig er mwyn gallu ymgymryd â'r rôl.
- Nad dyma'r adeg i adolygu cyflogau, eithr ar ddechrau tymor newydd y Cyngor.
- Os oes awydd i ail-ymweld â chyflogau, dylid edrych ar gyflogau'r holl aelodau, ac nid yr Aelodau Cabinet yn unig.

Pleidleisiwyd ar y gwelliant ac fe ddisgynnodd.

Gan gyfeirio at yr argymhelliad i beidio talu uwch-gyflog i Gadeirydd y Pwyllgor Apelau Cyflogaeth o hyn allan, mynegodd Cadeirydd presennol y Pwyllgor Apelau Cyflogaeth (fyddai'n sefyll i lawr y mis hwn) ei wrthwynebiad i'r argymhelliad ar y sail:-

- Bod y pwyllgor yn gweithredu ar ran 6,000 – 7,000 o staff y Cyngor ac yn gorfod gwneud penderfyniadau anodd ac emosiynol dros ben, e.e. i ddiswyddo staff.
- Bod nifer y cyfarfodydd wedi cynyddu gyda'r pwyllgor yn cyfarfod o leiaf unwaith y mis, ac weithiau ddwywaith.
- Bod y cyfarfodydd yn rhai trwy'r dydd a bod un cyfarfod wedi mynd ymlaen am ddau ddiwrnod a chyfarfod arall wedi mynd ymlaen o 9.30yb tan 7.00yh.

- Nad oedd yr is-grŵp fu'n edrych ar gyflogau aelodau wedi trafod y llwyth gwaith gydag ef nag aelodau'r Pwyllgor cyn llunio eu hargymhelliad.
- Pe na bai'r Cyngor yn fodlon gwrthod yr argymhelliad, y byddai'n fodlon cynnig bod yr is-grŵp yn gwneud rhagor o waith ymchwil ar y mater, fyddai'n cynnwys holi cadeiryddion ac aelodau'r Pwyllgor Apelau Cyflogaeth a'r Pwyllgor Pensiynau ynglŷn â'r llwyth gwaith.

Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant i gadw at y drefn bresennol oherwydd llwyth gwaith y Pwyllgor Apelau Cyflogaeth.

Yn ystod y drafodaeth ar y gwelliant, nodwyd:-

- Y gallai'r gwaith ychwanegol sy'n wynebu Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau olygu 17 cyfarfod mewn blwyddyn, gan gynnwys aros dros nos ar rai achlysuron, a gallai olygu ymrwymo o leiaf 19 diwrnod yn y cyswllt hwn.
- Bod aelodau'r Pwyllgor Pensiynau yn gorfod ymgymryd â hyfforddiant ac asesiadau parhaus.
- Y gobeithid bod yr is-grŵp wedi edrych yn fanwl ar y llwyth gwaith sydd ynghlwm â'r ddwy rôl, ac wedi eu cymharu a dod i ddealltwriaeth.
- Bod gan Gadeirydd y Pwyllgor Pensiynau lawer o waith i'w wneud y tu allan i'r pwyllgor, ac nad mater o nifer cyfarfodydd yn unig ydoedd.

Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â chywirdeb y ffigurau yn yr adroddiad o ran nifer cyfarfodydd y Pwyllgor Apelau Cyflogaeth, cadarnhaodd y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol y cynhaliwyd 4 cyfarfod yn 2015-16, er y clustnodwyd un dyddiad bob mis ar gyfer gallu cynnal gwrandawiad buan petai angen.

Nodwyd, er bod mwyafrif cyfarfodydd y Pwyllgor Apelau Cyflogaeth yn cael eu canslo, bod hynny'n dueddol o ddigwydd ar y funud olaf wedi i'r aelodau gwblhau'r holl waith paratoi.

Pleidleisiwyd ar y gwelliant i gadw at y drefn bresennol ac fe ddisgynnodd.

Pleidleisiwyd ar y cynnig gwreiddiol i beidio talu uwch-gyflog i Gadeirydd y Pwyllgor Apelau Cyflogaeth o hyn allan, ac fe gariodd.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Cadw lefelau cyflogau Aelodau Cabinet ar Lefel 1 (ar sail ystyried y pwysau gwaith a chyfrifoldebau cyfartal i'r meysydd gwaith) a chadw lefelau cyflogau Cadeiryddion Pwyllgorau ar Lefel 1 (ar sail ystyried y pwysau gwaith, natur ddaearyddol y sir a'r gofynion i deithio i gyfarfodydd ayyb)**

**(b) Ar sail y wybodaeth a ystyriwyd gan yr is-grŵp, talu uwch-gyflog i Gadeirydd y Pwyllgor Pensiynau yn sgil y gwaith a'r gofynion ychwanegol sydd i ddod i Gadeirydd y pwyllgor hwnnw yn sgil y newidiadau.**

**(c) Er mwyn gallu gweithredu'r uchod, gan fod y Cyngor wedi ei gyfyngu i dalu 18 uwch-gyflog yn unig, na thelir uwch-gyflog i Gadeirydd y Pwyllgor Apelau Cyflogaeth o hyn allan.**

## 11. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad yn manylu ar yr adolygiad blynyddol o gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor.

Eglurwyd bod y dyraniad seddau ar bwyllgorau (Atodiad A i'r adroddiad) yn gyson â'r hyn a fabwysiadwyd ar 3ydd Mawrth, 2016, ac er mwyn cymeradwyo'r argymhelliad, a hynny

oherwydd nad yw'r rheolau yn cael eu gweithredu'n llawn, y byddai'n rhaid i'r Cyngor eu cymeradwyo'n ddiwrthwynebiad (fel y gwnaethpwyd yn y gorffennol).

**PENDERFYNWYD**
**(a) Mabwysiadu dyraniad seddau ar bwyllgorau'r Cyngor yn unol â'r tabl isod:-**

**PWYLLGORAU CRAFFU**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Corfforaethol | 9 | 5 | 2 | 1 | 1 | |
| Cymunedau | 10 | 5 | 1 | 1 | 1 | |
| Gwasanaethau | 10 | 4 | 2 | 1 | | 1 |
| Archwilio | 10 | 5 | 2 | 1 | | |

**PWYLLGORAU ERAILL**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Democratiaeth | 8 | 4 | 2 | 1 | | |
| Iaith | 8 | 4 | 2 | 1 | | |
| Cynllunio | 8 | 4 | 1 | 1 | 1 | |
| Trwyddedu Canolog | 8 | 5 | 2 | | | |
| Apelau Cyflogaeth | 3 | 1 | 1 | 1 | | 1 |
| Penodi Prif Swyddogion | 8 | 4 | 1 | 1 | 1 | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer y seddau** | **82** | **41** | **16** | **9** | **4** | **2** | **154** |

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pensiynau | 3 | 2 | 0 | 1 | 1 | |
| Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol | 6 | 2 | 1 | 2 | | |
| Cydbwyllgor Addysg Anghenion Arbennig | 3 | 2 | 1 | | | 1 |
| Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd | 4 (3 sedd ac un eilydd) | 2 | 1 | 1 | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CYSAG | 4 | 2 | 1 | | | | |
| **Cyfanswm y Seddau** | **102** | **51** | **20** | **13** | **5** | **3** | **194** |

**(a) Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd wneud penodiadau i'r pwyllgorau ar sail cydbwysedd gwleidyddol ac yn unol â dymuniadau'r grwpiau gwleidyddol.**

**(b) Mabwysiadu cadeiryddiaethau'r pwyllgorau craffu ar sail cydbwysedd gwleidyddol, fel a ganlyn:-**

**Pwyllgor Craffu Corfforaethol – Llais Gwynedd**
**Pwyllgor Craffu Cymunedau – Plaid Cymru**
**Pwyllgor Craffu Gwasanaethau – Annibynnol**

**12. RHYBUDDION O GYNNIG**

(a) Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Owain Williams o dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

**"Bod y Cyngor yn gofyn i Gabinet Cyngor Gwynedd ystyried ail-edrych ar eu polisi ynglŷn â gosod contractau allan i gyflenwyr bwyd yn ein hysgolion a'r flaenoriaeth a roddir i gwmnïau bach lleol.**

**Y rhesymeg tu ôl i hyn yw'r ffaith eu bod yn honni eu bod yn rhoi blaenoriaeth i <u>gwmnïau bach lleol</u> yn hytrach na chwmnïau mawr. Mae hyn yn hanfodol bwysig oherwydd bod rhai cwmnïau yn cyflenwi bwydydd a fewnforiwyd yn arbennig felly cigoedd. Ni ellir pwysleisio'n ormodol y pwysigrwydd o allu olrhain tarddiad pob math o gig gan gofio am helyntion a pheryglon i blant ac oedolion o fwyta cig a heintiwyd e.e. clefyd y gwartheg gwallgof. Oferedd a sinicrwydd ydyw dadlau fod pris y cigoedd a gyflenwir gan gwmnïau mawr yn rhatach wedyn; pa bris a roddir ar ddiogelwch ac iechyd plant?"**

Galwodd aelod ar y cynigydd i ddileu ail baragraff ei gynnig ar y sail:-

- Bod y cynnwys yn ffeithiol anghywir gan fod gwybodaeth glir ynglŷn â tharddiad pob cig ar y labeli y dyddiau hyn.
- Bod gwneud haeriad bod modd i'r Cyngor fynd heibio'r holl reoliadau tynn ynglŷn â gwerthu cig yn gwbl afresymol.

Nododd y cynigydd nad oedd yn fodlon dileu'r ail baragraff.

Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant i ddileu'r ail baragraff ac i ddiwygio'r paragraff cyntaf i ddarllen fel a ganlyn:-

"Bod y Cyngor yn gofyn i Gabinet Cyngor Gwynedd ddwysau yn eu hymdrechion i gadw'r budd yn lleol gan gydweithio hefo, a grymuso cwmnïau bach lleol i allu cystadlu am y tendrau."

Yn ystod y drafodaeth ar y gwelliant, nododd yr Aelod Cabinet Economi:-

- Nad mater o ddewis oedd hyn, eithr proses fusnes gyfreithiol, ac er y byddai wedi bod yn ddewis hawdd i Wynedd bwrcasu ar lefel Gogledd Cymru, 'roedd

y Cyngor wedi llwyddo yn eu hachos busnes i symud oddi wrth hynny gan nad oedd y drefn yn gweddu i fusnesau llai eu maint yn y sir.

- Ymhellach i hyn, y rhannwyd y sir yn dalpiau llai er mwyn rhoi cyfle i fusnesau dendro a chafwyd sesiynau cyfarfod y prynwyr, ac ati, i godi ymwybyddiaeth, a bu cryn dipyn o waith gan swyddogion y Cyngor hwn i rymuso'r busnesau.
- Nad oedd yn bosib' yn gyfreithiol i'r Cyngor roi mewn cytundeb bod cwmni yn cael y gwaith oherwydd ei fod yn gwmni lleol, ond 'roedd modd gwyro'r drefn tuag at roi amodau ffafriol iddynt.
- Bod ail baragraff y cynnig gwreiddiol yn anghyfiawn ac yn codi bygythion ymhlith rhieni plant yn yr ysgolion.
- Er bod rhai cwmnïau bychain wedi colli contractau, bod yna gwmni lleol yng Ngwynedd hefyd wedi ennill y contract a bod y math yma o ddatganiad mewn dogfen gyhoeddus gan y Cyngor yn sarhad i'w proffesiynoldeb hwy a'u cyfle i dyfu o fewn y sir hon.

Codwyd rhai pwyntiau gan aelodau eraill hefyd, megis:-

- Bod modd olrhain tarddiad pob cig yn y wlad hon ac y dylid rhoi pob anogaeth a chefnogaeth i fusnesau lleol i'w galluogi i dendro yn llwyddiannus am fusnes lleol.
- Bod modd i'r Cyngor roi mwy o bwyntiau i fusnes lleol ond nad oedd ymrwymiad cadarn wedi'i roi bod y cynnyrch fydd yn cael ei ddefnyddio yn cael ei wireddu yn lleol.
- Bod angen cadw a chefnogi busnesau bach drwy flaenoriaethau'r cymorth sydd ei angen arnynt.
- Bod angen edrych ar ba gytundebau sydd wedi'u rhoi i gwmnïau y tu allan i'r sir gan sicrhau yn y dyfodol bod cyflenwr o fewn y sir â'r gallu a'r ymroddiad i wneud y gwaith.
- Na ddylai'r Cyngor roi'r gwaith allan i unrhyw gyflenwyr heb weld y pasbortau priodol.
- Bod angen cefnogi cwmnïau bach ac oni fyddai'n decach rhannu'r gacen yn hytrach na gosod y contract yn ei gyfanrwydd i un cwmni?
- Bod dyletswydd ar y Cyngor i weithredu yn rhagweithiol a sicrhau ein bod yn prynu'n lleol.
- Y dylid cadw at yr egwyddor o gefnogi busnesau lleol cyn belled ag y gellir gan hefyd sicrhau bod y bwydydd sy'n cyrraedd yr ysgolion yn deilwng ar gyfer y plant.
- Y golygai rheoliadau bwyd yn y wlad hon fod y bwyd o ansawdd arbennig o dda.
- Bod y Cyngor hwn ymhlith y gorau yng Nghymru o ran prynu'n lleol ac yn awyddus i sicrhau hyd yn oed gwell perfformiad.

Pleidleisiwyd ar y gwelliant ac fe gariodd.

Cynigiodd cynigydd y rhybudd o gynnig gwreiddiol welliant i ychwanegu at y cynnig bod y Cabinet yn edrych i mewn i darddiad cigoedd ac yn monitro'r tarddiad hwnnw.

Eiliwyd y gwelliant.

Mewn ymateb, nododd aelodau fod trefniadau manwl eisoes yn eu lle i fonitro tarddiad cigoedd.

Pleidleisiwyd ar y gwelliant ac fe ddisgynnodd.

Pleidleisiwyd ar y cynnig gwreiddiol ac fe gariodd.

**PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn gofyn i Gabinet Cyngor Gwynedd ddwysau yn eu hymdrechion i gadw'r budd yn lleol gan gydweithio hefo, a grymuso cwmnïau bach lleol i allu cystadlu am y tendrau.**

(b) Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Elwyn Edwards o dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

**"Yn dilyn penderfyniad y Cyngor 18/3/16 i fynd ati i fonitro ac asesu sefyllfa'r Gymraeg (o 2011) yng nghyd-destun y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, bod y Cyngor hwn yn gwahodd Cyngor Môn i fod yn rhan gyflawn o'r gwaith."**

Nododd aelod:-

- Ei bod yn bwysig nodi yn gwbl glir mai ategu'r broses Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd fydd gweithredu penderfyniad y cyfarfod arbennig o'r Cyngor, ac nad oedd hynny'n golygu ymyrryd yn y broses statudol nac yn ei thanseilio mewn unrhyw fodd.
- Nad oedd gweithredu'r penderfyniad yn mynd yn groes i'r sefyllfa gyfreithiol na sefyllfa gyfansoddiadol y Cyngor nac yn newid dim o ran sefyllfa'r gofynion statudol.
- Yn hytrach, y byddai gweithredu'r penderfyniad yn ychwanegiad hollbwysig a hanfodol at y broses, drwy gasglu tystiolaeth allweddol a fydd yn fodd o ddeall pa effaith y mae datblygiadau tai ers 2011, sef o gychwyn oes y cynllun, wedi gael ar y Gymraeg.
- Bod derbyn yr wybodaeth hon yn gwbl angenrheidiol gan nad yw datblygiadau tai ers 2011 wedi eu monitro na'u hadolygu.
- Bod y penderfyniad wedi'i wneud ar y 18fed o Fawrth a'i bod yn rhesymol i wahodd Cyngor Ynys Môn i wneud yr un peth.
- Ei fod yn cefnogi'r cynllun ac yn annog bod y gwaith yn dechrau nawr.

Nododd yr Aelod Cabinet Cynllunio fod y mecanwaith eisoes yn ei le ar gyfer gwneud yr hyn y gofynnir amdano, y byddai'r gwaith yn cychwyn yn eithaf buan a'i fod felly'n croesawu'r cynnig.

**PENDERFYNWYD yn dilyn penderfyniad y Cyngor 18/3/16 i fynd ati i fonitro ac asesu sefyllfa'r Gymraeg (o 2011) yng nghyd-destun y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, bod y Cyngor hwn yn gwahodd Cyngor Môn i fod yn rhan gyflawn o'r gwaith.**

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cefnogaeth ac i'r swyddogion fu'n cefnogi'r cyfarfod.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 3.55 y.h.

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Y Cyngor** |
| **DYDDIAD:** | **30 Mehefin 2016** |
| **AELOD CABINET:** | **Cynghorydd William Gareth Roberts**<br>**Cynghorydd Mair Rowlands** |
| **TEITL:** | **Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol 2015/16** |
| **AMCAN:** | **Adrodd ar effeithlonrwydd Gwasanaethau Cymdeithasol 2015/16**<br>**Gofynnir i Aelodau gydnabod yr adroddiad** |
| **AWDUR:** | **Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Statudol a Chyfarwyddwr Corfforaethol** |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'n ofyn statudol i'r Cyngor gyhoeddi 'Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol' sydd yn adrodd ar effeithlonrwydd Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol.

1.2 Rhaid i'r adroddiad fod mewn iaith hawdd i'w ddeall gan ddweud wrth drigolion a chyfranddalwyr pa mor dda rydym yn meddwl mae'r Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol yn perfformio yng Ngwynedd. Ar ddiwedd y broses, mae'n ddisgwyliad ein bod yn cyflwyno'r adroddiad i Aelodau'r Cyngor.

## 2. Y gyfundrefn

2.1 Cyflwynwyd y gyfundrefn hon yn 2010. Mae'n unigryw i Gymru ac i Wasanaethau Cymdeithasol ac mae gofyn i Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol dderbyn cyfrifoldeb personol i adrodd yn gyhoeddus ar berfformiad y gwasanaethau ynghyd â'r profiad o ddarparu gwasanaethau mewn cyd-destun lleol.

2.2 Gofynnir i'r Cyfarwyddwr Statudol ystyried yr ystod wybodaeth a phrofiadau sy'n cael effaith ar allu'r Gwasanaethau Cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau dibynadwy a chynaliadwy o'r safon uchaf.

2.3 Er bod hwn yn gyfrifoldeb penodol ar y Cyfarwyddwr Statudol rhaid cyflawni'r gwaith a'r dasg mewn ffordd sy'n adlewyrchu a grymuso'r cydweithio, sy'n rhan annatod o'r maes.

2.4 Mae 4 cam i'r broses, sef:

**i. Yr Adroddiad Blynyddol (a gyflwynir fel Atodiad 1).**
Dogfen gyhoeddus sy'n crynhoi barn y Cyfarwyddwr ar effeithlonrwydd y gwasanaeth yn ystod 2015/16 gan nodi'r blaenoriaethau er sicrhau gwella gwasanaeth ar gyfer y dyfodol. Yn dilyn y Cyngor Llawn, bydd y ddogfen yn cael ei dylunio, er mwyn rhoi diwyg mwy lliwgar, a chynnwys rhywfaint o ddyfyniadau pellach, lluniau a graffiau atodol. Yna, bydd yn cael ei rhoi ar wefan y Cyngor.

**ii. Dadansoddiad o effeithiolrwydd Gwasanaethau**
Proses fanwl o hunan asesu effeithiolrwydd y gwasanaeth, gan gytuno ar ddadansoddiad ac adnabod blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae angen sicrhau fod cyfranddalwyr wedi cael cyfle i herio'r asesiad. Nid yw'n ddogfen gyhoeddus ond ar gael i bawb sydd eisiau'i gweld.

**iii. Llwybr Tystiolaeth**
Rhaid casglu tystiolaeth sydd yn cyfiawnhau'r asesiad a'r dyfarniad yn yr hunan asesiad.

**iv. Cynllun busnes**
Llunnir y cynllun busnes er mwyn cyflawni'r gwelliannau a nodir yn yr adroddiad.

## 3. Argymhelliad

3.1 Gofynnir i'r Cyngor gydnabod yr adroddiad fel crynodeb cywir a chytbwys o berfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol yng Ngwynedd yn ystod 2015/16, ynghyd â'r bwriadau strategol ar gyfer 2016/17. Gofynnir yn ogystal am hawl olygyddol i'r Cyfarwyddwr Statudol ychwanegu lluniau, graffiau a dyfyniadau ychwanegol, fel bo'n briodol, i fywiogi diwyg yr adroddiad cyn ei gyhoeddi'n ffurfiol.

Atodiad 1

# Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd

2015 - 2016

## Cynnwys


| Rhan | Teitl | Tudalen |
| --- | --- | --- |
| 1. | Diogelu Plant ac Oedolion | 5 |
| 2. | Cydweithio a Cyd Gynhyrchu | 6 |
| 3. | Llesiant | 7 |
| 4. | Gwaith Ataliol ac Ymyrraeth Gynnar | 9 |
| 5. | Pobl a Sicrhau Llais i Ddefnyddwyr Gwasanaeth | 14 |
| 6. | Llywodraethu y Gwasanaethau Cymdeithasol | 20 |

## Gair agoriadol gan y Cyfarwyddwr

Mae'n bleser unwaith eto eleni cael cyflwyno fy Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn a fu. Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi trosolwg o berfformiad ein Gwasanaethau Cymdeithasol yng Ngwynedd gan amlygu'r elfennau hynny sydd wedi bod yn llwyddiannus, a hefyd rhoi sylw i rai materion sydd ddim wedi mynd cystal â ble felly y bydd angen dysgu.

Rwy'n gobeithio hefyd y bydd yr adroddiad yn rhoi blas i chi ar gyfeiriad Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd i'r dyfodol a thrwy hyn yn amlygu ein blaenoriaethau ar gyfer y blynyddoedd nesaf. Croesawaf wrth gwrs unrhyw sylwadau gennych o ran cynnwys yr adroddiad yn gyffredinol, ond yn benodol hefyd o ran sut mae ein blaenoriaethau yn cyd fynd a'r hyn yr ydych chi'n deimlo sydd yn bwysig i chi, eich teulu a'ch cymunedau. Rwy'n gobeithio fy mod wedi llwyddo i wrando ar eich pryderon yn ystod y flwyddyn, a thrwy hyn eisoes yn ymateb ac yn blaenoriaethu yn ol yr angen.

Dyma'r pedwerydd adroddiad blynyddol i mi gyflwyno, a rwy'n falch o adrodd fy mod yn hapus gyda'r perfformiad sydd wedi ei ddangos dros y flwyddyn. Mae'r perfformiad hwn yn amlwg yn edrych ar faterion diogelu, ansawdd ein gwasanaeth, a'n darpariaethau. Mae lle i wella, ac mae agweddau sydd angen sylw, ond ar y cyfan rydym yn cynnig gwasanaethau o safon ac yn ymateb yn briodol i faterion diogelu. Os oes diffygion yn ein trefniadau yn cael ei amlygu, rydym yn ceisio sicrhau ein bod yn dysgu'r gwersi ac yn rhoi'r newidiadau priodol ar waith.

Fel y bu i mi adrodd yn fy adroddiad y llynedd, rydym bellach ynghanol newid sylweddol o fewn y maes gofal – yn wir mae'n debyg y gellir galw'r cyfnod o newid hwn yn 'un daith fawr'. Mae llawer o'r gwaith paratoi ar gyfer y daith wedi ei wneud dros y blynyddoedd diwethaf. Enghraifft o hyn yw'r sylfaeni cadarn sydd wedi eu gosod yn y maes gofal plant yn dilyn adolygiad mewnol ar y system yn llawn. Yn deillio o hyn cafwyd argymhellion i ddatblygu Un Drws Ffrynt, Rhaglen o Wasanaethau Ataliol, a Thîm Trothwy Gofal. Law yn llaw a'r gwaith yma, ym maes Gofal Oedolion ac ar y cyd hefo partneriaid allweddol, ymgeisiwyd i gymryd cam yn ôl gan ail ddylunio'r system iechyd a gofal yn ei chyfanrwydd, a hynny er mwyn rhoi'r dinesydd yn y canol. Bydd manylion pellach ar y rhaglenni gwaith trawsffurfiol yma i'w cael yng nghorff yr adroddiad.

Er felly bod y cyfeiriad wedi ei osod yma yng Ngwynedd dros y blynyddoedd diwethaf, a'r ffaith fod y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru (2014) yn weithredol ers Ebrill, rwy'n falch o gael adrodd fod y 'map' ar gyfer y daith bellach yn ein dwylo ni yn awr er mwyn cyflawni'n llawn y newid sydd ei angen. Ar sail hyn felly rwyf wedi llunio'r adroddiad hwn i gyd fynd a prif egwyddorion y ddeddf - sef diogelu, cydweithio a chyd-gynhyrchu, llesiant, ymyrraeth gynnar, gwaith ataliol, a rhoi llais a rheolaeth i'n defnyddwyr gwasanaeth.

Ynghlwm felly a'r newidiadau deddfwriaethol, y trawsffurfio gwasanaethau sy'n digwydd mewn ymateb i hyn a'r newid yn nisgwyliadau pobl Gwynedd, mae gofyn

arnom i weithredu yn ogystal wrth gwrs o fewn cyfyngderau ariannol. Er mwyn cyflawni hyn mae'r adrannau perthnasol wedi bod yn gweithio yn ddiwyd ar gynlluniau arbedion effeithlonrwydd sydd yn sicrhau ein bod yn parhau i gynnig gwasanaeth ond yn gwneud hynny am gost is. Mae'r cynlluniau hyn wedi bod yn llwyddiannus ar y cyfan ac mae'r gwaith yma yn parhau.

Er hyn, yn ystod y flwyddyn, fel y gwyddoch, am y tro cyntaf, bu'n rhaid i'r Cyngor wneud penderfyniadau anodd o ran yr angen i dorri gwasanaethau. Mae rhai o'r toriadau hynny wedi effeithio ar y maes Gwasanaethau Cymdeithasol. Byddaf yn monitro effaith y toriadau hyn yn gyson er mwyn asesu'r effaith ar drigolion Gwynedd. Ar y pwynt hwn, credaf ei bod yn werth i mi bwysleisio'r hyn sydd wedi ei ddweud droeon – sef sut bynnag fydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yng Ngwynedd yn edrych yn y blynyddoedd sydd i ddod, fe fydd dal angen parhau i flaenoriaethu materion diogelu, a chwrdd â gofynion y rhai mwyaf anghenus.

Ein hamcan fel Cyngor yw cwrdd ag anghenion pobl Gwynedd yn y ffordd orau posib o fewn yr adnoddau sydd gennym, a hynny drwy roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth wnawn. Rydym mewn cyfnod lle mae gwir gyfleoedd i hyrwyddo ffyrdd gwahanol o weithio ac arloesi er mwyn symud yr agenda trawsffurfio gwasanaethau yn ei blaen. Yn wir mae gennym lwyddiannau yn barod yng Ngwynedd i ni oll ymfalchïo ynddynt a rhaid ceisio dysgu ohonynt a sicrhau datblygiadau arloesol ar draws y maes.

Ar ddiwedd blwyddyn mae'n bwysig i mi gydnabod arweiniad a chefnogaeth Aelodau Cabinet yn y maes gofal, y Cynghorwyr William Gareth Roberts ac hefyd y Cynghorydd Mair Rowlands. Dyma'r flwyddyn gyntaf iddynt hwy o ran cyfrifoldeb am y maes hwn, ac mae eu cyfraniad a'u ymroddiad wedi bod yn un gwerthfawr ac arwyddocaol . Hoffwn fanteisio hefyd ar y cyfle i ddiolch o waelod calon i'n holl staff, ein darparwyr a phartneriaid, am eu hymrwymiad a'u gwaith caled wrth sicrhau fod plant, pobl ifanc, ac oedolion bregus a'u teuluoedd yn derbyn y gwasanaethau gorau bosibl. Yn ogystal, hoffwn ddiolch yn arbennig i bawb sydd yn gofalu yn anffurfiol am aelod o'r teulu neu am gymydog. Mae eich cyfranniad yn amhrisiadwy.

Gobeithio y byddwch yn mwynhau darllen yr adroddiad. Byddaf yn hapus iawn i dderbyn eich sylwadau neu syniadau ar sut i gymryd camau pellach ar ein taith.

AM Edwards

**Awen Morwena Edwards**
**Cyfarwyddwr Corfforaethol a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Cyngor Gwynedd**

## 1. Diogelu Plant ac Oedolion

Mae'r cyfrifoldeb i ddiogelu plant ac oedolion bregus yn un o gyfrifoldebau pwysicaf y Cyngor. Dros y blynyddoedd diwethaf mae pwyslais wedi bod ar sicrhau fod trefniadau'r maes hwn yn gadarn yma, a'n bod yn sylweddoli ein cyfrifoldeb personol am y diogelu.

Mae trefniadau statudol rhanbarthol yn eu lle ar gyfer y maes hwn, gyda Bwrdd Diogelu Plant a Bwrdd Diogelu Oedolion bellach yn eu lle. Mae'r trefniadau hyn yn sicrhau bod trosolwg o'r heriau ar draws yr asiantaethau, a thrwy'r byrddau hyn y mae'r adolygiadau yn dilyn digwyddiadau anffafriol yn cael eu comisiynnu. Mae'r argymhellion sy'n deillio o'r adolygiadau hyn yn cael eu rhaeadru ar draws y rhanbarth ac yn ehangach pan ac os yn berthnasol. Un o brif amcanion y drefn hon yw dysgu gwersi o ddigwyddiadau, a sicrhau bod urhyw diffygion mewn ymarfer neu brosesau yn cael sylw.

Yn fewnol, fel y bu i mi adrodd y llynedd, mae Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion bellach yn ei le. Un o brif amcanion y Panel yw sicrhau ymwybyddiaeth a gwella perchnogaeth ar draws y Cyngor o'r maes pwysig hwn, ac hefyd monitro gweithrediad rhai o'r prosiectau trawsffurfiol yn y maes sydd o fewn y Cynllun Strategol. Rwy'n falch o adrodd fod cynnydd wedi bod yn y rhan fwyaf o'r prosiectau yn ystod y flwyddyn - er yr hoffwn fod wedi gweld mwy o weithredu o ran rhai elfennau. Yn benodol o ran y maes addysg mae penodiad y Swyddog Diogelu wedi bod yn allweddol i yrru'r rhaglen waith yn ei blaen. Mae'n werth nodi bod y Panel wedi cytuno yn ystod y flwyddyn i ychwanegu'r agenda "PREVENT" at eu maes gwaith. Hon yw'r rhaglen sydd yn cael ei arwain gan y Swyddfa Gartref yn ymwneud a cheisio atal unigolion rhag cael eu radicaleiddio.

Yn ystod y flwyddyn, derbyniwyd argymhellion gan yr Arolygaeth Gofal bod angen i ni wella ein trefniadau mewnol o ran gweithredu diogelu yn y maes oedolion yn benodol. Mewn ymateb i hyn, ac yn sgil newidiadau deddfwriaethol, mae'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant wedi adolygu'n llawn eu trefniadau gweithredol a byddaf yn ystyried y ffordd ymlaen mor fuan â phosib.

Er hyn braf yw medru adrodd fod y mesurau perfformiad yr ydym yn ei casglu o ran Oedolion a Phlant yn awgrymu perfformiad cadarn eto eleni. Gwelwyd ein bod, o'r holl atgyfeiriadau amddiffyn oedolion sydd wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn, wedi llwyddo i reoli'r perygl 97% o'r amser. Ni lwyddwyd i reoli'r perygl 100% o'r amser fel y llynedd gan fod 3% sy'n weddill wedi gwrthod ymyrraeth neu wedi tynnu'r cais yn ôl. Mae perfformiad y mesur hwn yn gyson gyda gweddill Cymru (96% yn 2014/15), a'r teulu (98% yn 2014/15) o gynghorau tebyg i Wynedd. Yn benodol o ran plant, mae'r asesiadau risg a gafodd eu cyflwyno i gynadleddau achos a oedd yn cael eu hystyried yn rhai oedd yn dangos ansawdd wrth wneud penderfyniadau awgrymu perfformiad cadarn eto eleni – 97% yn 2015/16 o gymharu a 98% yn 2014/15.

Serch hyn, er fy mod yn gyfforddus hefo perfformiad y maes hwn hoffwn amlygu fod pwysau yn parhau mewn rhai meysydd penodol - megis delio gydag achosion diogelu rhag colli ryddid (DoLS). Mae gwaith yn mynd rhagddo i geisio ymateb i hynny - megis hyfforddi mwy o aseswyr. Byddaf yn manylu ymhellach ar yr agweddau gweithredol diogelu o fewn y maes oedolion a maes plant ym mhennod 5.

## 2. Cydweithio a Chyd Gynhyrchu

Mae'n debyg mai'r elfen hon yw'r llinyn arian oll bwysig wrth geisio trawsnewid ein gwasanaethau, boed hynny o ran yr agenda llesiant, ataliol, neu'n cefnogi'r unigolion hynny sydd fwyaf bregus.

Mae cydweithio a chyd gynhyrchu yn hanfodol er mwyn sicrhau ein bod yn llwyddo i roi'r unigolyn yn ganolbwynt i'n gwasanaethau, ond hefyd yn ffordd o sicrhau fod adnoddau'r sector yn cael ei ddefnyddio mor effeithiol â phosib - a hynny mewn cyfnod o grebachu ariannol a thwf cyffredinol mewn angen am gefnogaeth Gwasanaethau Cymdeithasol. Trwy fod yn cydweithio a chyd gynhyrchu yn effeithiol mae modd sicrhau nad yw strwythurau, cyllidebau a sefydliadau yn rhwystr i gynnig y gwasanaeth gorau posib i drigolion Gwynedd.

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru (2014) yn gosod cyfrifoldebau newydd arnom fel awdurdodau lleol, ynghyd â gosod cyfeiriad ynglŷn â darparu gwasanaethau cynaliadwy i'r dyfodol. Mae hi hefyd yn pwysleisio'r angen i awdurdodau weithio mewn partneriaeth agos gyda defnyddwyr gwasanaeth, darpar ddefnyddwyr, teuluoedd, gofalwyr anffurfiol a chymunedau. Ar yr un pryd mae disgwyliad hefyd ein bod yn gweithio'n agos iawn gyda'r Gwasanaeth Iechyd a'r Trydydd Sector.

Ers blynyddoedd bellach mae Cyngor Gwynedd wedi ceisio manteisio ar gyfleoedd i gydweithio, a hynny'n genedlaethol, rhanbarthol, is rhanbarthol, ac ar y lefel lleol. O ran y maes gofal mae'r berthynas yn parhau i ddatblygu gyda'r sefydliadu megis y Byrddau Iechyd, Yr Heddlu, Trydydd Sector, darparwyr a gofalwyr. Ond mae'n rhaid cydnabod bod gwaith pellach i'w wneud, ac yn benodol felly o ran cysylltiadau gyda'n cymunedau ar lefelau mwy anffurfiol.

Mae dyfodiad y ddeddf yn cynnig cyfleoedd gwirioneddol i ffurfioli a datblygu ymhellach y cysylltiadau rheini sydd yn barod mewn lle, yn ogystal hefyd ac agor drysau newydd er budd ein trigolion. Credaf ein bod yn parhau i dorri tir newydd o ran cydweithio, ac mae'n debyg fod ymateb cynghorau'r gogledd i Ran 9 o'r ddeddf yn dystiolaeth eglur o hynny. Mae Rhan 9 o'r ddeddf yn ymwneud a threfniadau i sefydlu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn gwella canlyniadau a llesiant pobl yn ogystal â gwella effeithlonrwydd a chynnyddu effeithiolrwydd darparu gwasanaethau.

Yn benodol o ran cyd gynhyrchu gyda defnyddwyr credaf ein bod fel Cyngor wedi bod yn euog o feddwl ein bod yn gwybod yn well, ac yn gallu cynnig yr holl atebion i ddatrys problemau unigolion. Yn hynny o beth felly mae'n debyg nad yw defnyddwyr ein gwasanaethau bob amser wedi bod yn bartneriaid hafal. Gellir deall hefyd i ryw raddau sut ym maes gofal yr ydym wedi tueddu i ddibynnu'n ormodol ar y farn broffesiynol, gan efallai beidio rhoi digon o sylw i'r hyn mae'r unigolyn yn dweud wrthym. Gall hyn wrth gwrs fod wedi digwydd gyda'r bwriadau gorau, ond fwyfwy gwelwn fod newid y pwyslais i wrando ar farn yr unigolyn yn awr yn talu ar ei ganfed.

## 3. Llesiant

Mae disgwyliad arnom fel Cyngor i hyrwyddo llesiant wrth weithredu o ddydd i ddydd, a hynny ar gyfer y boblogaeth yn ei chyfanrwydd. Mae disgwyliadau deddfwriaethol arnom i adrodd yn erbyn y safonau llesiant isod, ac maent oll wedi eu yn derbyn sylw yn yr adroddiad. Dyma'r safonau y mae gofyn i awdurdodau lleol ei cyflawni wrth weithio gyda phobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, ynghyd hefyd a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt. Rhaid gweithredu a chydweithio :-

- er mwyn diffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau lles personol y mae pobl am eu cyflawni
- a phartneriaid perthnasol er mwyn diogelu a hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol a lles emosiynol pobl.
- i ddysgu a datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas.
- i ddatblygu'n ddiogel a chynnal chydberthnasau domestig, teuluol a phersonol iach.
- a'u helpu i wella eu lles economaidd, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn lety addas sy'n diwallu eu hanghenion.

Yn ogystal, mae'n rhaid i awdurdodau lleol gymryd camau priodol i amddiffyn a diogelu pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, a'r gofalwyr y mae angen cymorth arnynt rhag camdriniaeth ac esgeulustod neu unrhyw fathau eraill o niwed.

Yn benodol ar gyfer y flwyddyn nesaf, rwy'n disgwyl gweld datblygiad sylweddol o ran ein dealltwriaeth o'r maes hwn, ac y byddwn, trwy ddatblygiadau megis yr asesiad poblogaeth, mewn sefyllfa gadarn i wneud penderfyniadau effeithiol a gwybodus. Mae'r asesiad poblogaeth yn cael ei arwain yn rhanbarthol, ac mae mewnbwn hefyd yn cael ei roi gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ogystal. O ystyried y safonau llesiant sy'n derbyn sylw trwy gorff yr adroddiad, a sylwadau defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a phartneriaid yn ystod y flwyddyn, gallaf gadarnhau ein hamcanion llesiant ar gyfer y flwyddyn i ddod fel a ganlyn:-

- Codi ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau llesiant pawb sydd ynghlwm a'r sector gofal.
- Ymgysylltu hefo cymunedau gan geisio hyrwyddo gweithredu cymunedol fydd yn cynnig cyfleoedd er mwyn gwella llesiant trigolion y sir.
- Sefydlu trefn sy'n sicrhau perchnogaeth gorfforaethol o'r agenda llesiant.
- Parhau i gyfoethogi ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r maes trwy'r asesiad poblogaeth.
- Datblygu trefn sy'n sicrhau fod gwybodaeth a gesglir trwy sgyrsiau gyda unigolion yn cael ei ddefnyddio'n ehangach o ran blaenoriaethau'r dyfodol.

Er mwyn gwneud y newid sylweddol sydd ei angen uchod rydym wedi penodi un o'r Uwch Reolwyr o fewn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, i arwain yn y maes. Mae'r Uwch Reolwr hwn hefyd yn gyfrifol am y maes tai, a gellir gweld wrth gwrs y cyswllt naturiol rhwng y meysydd hyn o ran gwella lles, cael bywyd cymdeithasol, a byw mewn llety addas sy'n diwallu anghenion. Yn fwy penodol wedyn, ac er mwyn gyrru'r rhaglen waith yn ei blaen, mae Rheolwr Llesiant hefyd nawr yn ei lle. Bydd yr apwyntiad o gymorth i adnabod datrysiadau gwahanol, ac i hwyluso mynediad at weithgareddau fydd yn hyrwyddo llesiant, gan ganolbwyntio ar ymdrechion i ymateb i beth sy'n cyfri i bobl. Disgwylir yn ogystal y bydd o gymorth i arwain a goruchwylio ymatebion fydd yn cyfrannu at yr agenda llesiant, gan gyd weithio gyda chymunedau a phartneriaid i adnabod cyfleoedd all helpu unigolion i gynnal annibyniaeth a chadw rheolaeth o'u bywydau o fewn ein cymunedau.

Rwy'n grediniol ein bod yn dechrau gweld ein gwasanaethau yn ymateb fwyfwy i anghenion llesiant ein trigolion, a gobeithiaf fod y gwaith sydd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn yn dystiolaeth o hynny. Mae'r newid i hyrwyddo llesiant yn plethu'n naturiol gyda'r angen i wrando ar yr hyn sy'n cyfri i'n hunigolion, a chyd gynhyrchu lle bo angen. Law yn llaw a chynllunio ein gwasanaethau i'r dyfodol y mae'r angen i adnabod bylchau yn ein gwasanaethau cyfredol, ac hefyd sicrhau fod gennym ddealltwriaeth lawn o'r hyn sydd ar gael yn ein cymunedau. Mae gwaith yn mynd rhagddo o ran gwneud asesiad o'r boblogaeth, a byddwn yn defnyddio'r wybodaeth honno er mwyn adnabod cryfderau a gwendidau o ran hybu llesiant ein trigolion. Yn neilltuol o ran y maes oedolion, mae rhannau o Wynedd wedi cael sylw penodol dros y flwyddyn ddiwethaf o ran mapio allan beth yn union sydd ar gael i drigolion e.e. blaenoriaethwyd ardal Eifionydd fel rhan o brosiect gweithio'n integredig sydd yn weithredol yno, ac hefyd ardal De Meirionnydd - gan fod yr ardal honno wedi ac yn parhau i beri pryder difrifol o ran ein gallu i gefnogi'n trigolion mwyaf bregus.

Mae'r prosiect 'Her Gofal' yn weithredol ers blwyddyn bellach a'i brif bwrpas yw gwella dealltwriaeth pobl Gwynedd o'r heriau sydd yn wynebu'r sector gofal, a thrwy hyn wedyn geisio hybu gweithredu cymunedol fydd gydag amser yn gwella gwydnwch ein cymunedau - rhoddir sylw pellach i'r Prosiect hwn fel rhan o bennod 4 'Ymyrraeth Gynnar ac Ataliol'. Rhan annatod o'r weledigaeth yw

sicrhau fod unigolion yn derbyn pob anogaeth i fod yn rhan o'u cymdeithas, boed hynny drwy eu rhwydweithiau personol a naturiol, neu trwy ymyraethau mwy pwrpasol yn y gymuned. Rydym fel Cyngor yn manteisio ar gyfleoedd cenedlaethol megis 'Dewis Cymru', ac yn ceisio hyrwyddo a sicrhau fod gwybodaeth am weithgareddau neu rwydweithiau anffurfiol yn cael ei rhannu yno yn ogystal.

## 4. Gwaith Ataliol ac Ymyrraeth Gynnar

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi gwasanaethau ataliol ynghanol darparu gwasanaethau. Mae'n canolbwyntio ar yr angen i ddatblygu agwedd ataliol ym mhopeth y byddwn yn ei wneud er mwyn gwneud gwasanaethau yn gynaliadwy i'r dyfodol. Mae'r ffocws newydd ar yr hyn sy'n cyfri i'r unigolyn yn sicrhau ein bod yn rhoi sylw i'r elfennau hyn yn unol â'r galw. Er bod ffocws y sgwrs ar yr unigolyn sy'n derbyn y gefnogaeth neu angen gofal, mae ystyriaeth hefyd yn cael ei roi i'r partner, teulu sy'n aml iawn hefyd yn ofalydd.

Mae gan ofalwyr rôl allweddol i'w chwarae o ran sicrhau system gofal ac iechyd gynaliadwy i'r dyfodol, ac ni ellir rhoi pris ar y gefnogaeth sydd yn cael ei roi gan ofalwyr ar draws y sir – ag ydynt yn aml iawn yn fregus ei hunain. Mae'n hanfodol ein bod fel awdurdod yn cynnig y gefnogaeth angenrheidiol, ac er mwyn sicrhau hyn mae'r Cyngor Llawn yn mis Mawrth 2016 wedi comisiynu prosiect newydd fydd yn rhoi sylw i hyn. Pwrpas y prosiect yw, erbyn diwedd Mawrth 2017, adolygu pa mor effeithiol yw ein trefniadau cyfredol ar gyfer cefnogi gofalwyr di-dal ac, ac os oes angen penderfynu wedyn ar yr ymyraethau ychwanegol sydd eu hangen i gynnal gofalwyr i'r dyfodol.

Mae'r egwyddor yr un fath ar draws oll o'r gwasanaethau, ac mae buddsoddi mewn ymyrraeth gynnar ac ataliol effeithiol yn hanfodol er mwyn sicrhau nad ydym yn sugno pobl i mewn i'r system a chreu dibyniaeth ddiangen. Dyma wrth gwrs yw ein dyhead i gyd fel unigolion, sef i fyw yn rhan o'n cymunedau lleol mor hir â phosib heb ymyraethau ffurfiol a gormodol gan gyrff statudol.

Rwyf wedi rhannu'r wybodaeth isod rhwng y ddwy adran berthnasol, sef Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ac Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant:-

- **Plant a Chefnogi Teuluoedd**

Ers blynyddoedd bellach mae gwaith da iawn wedi digwydd ym maes plant a chefnogi teuluoedd o ran yr agenda ymyrraeth gynnar ac ataliol. Mae'r ddeddf wedi adnabod yr angen i awdurdodau flaenoriaethu'r gwaith hwn i'r dyfodol. Un o'r newidiadau strwythurol sydd wedi digwydd yn ddiweddar o fewn y Cyngor yw sefydlu'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd gan ddod a Gwasanaethau Cymdeithasol plant ynghyd gyda'r elfennau ataliol arloesol. Bu i'r Cyngor hefyd

gwblhau asesiad "dechrau i ddiwedd" yn 2014/15 a rhoddodd argymhellion clir o'r datblygiadau pellach oedd angen eu rhoi ar waith.

Un argymhelliad oedd yr angen i sefydlu rhaglen o wasanaethau ataliol. Yn mis Mehefin 2015, comisiynwyd datblygiad pellach yn y gwaith hwn o fewn y Cynllun Strategol, gan geisio sefydlu blaenoriaethau yn amlasiantaethol ar gyfer agenda ymyrraeth gynnar / ataliol yn y sir. Mae'r gwaith hyd yma wedi adnabod bylchau ac anghenion penodol fel rhai sydd angen eu targedu wrth gynllunio pecynnau/ rhaglenni ataliol i'r dyfodol a gwella'r ddarpariaeth sy'n cael ei gynnig i'r person ifanc a'r teulu. Mae'r bylchau yn cynnwys oediad lleferedd ac iaith; cefnogaeth iechyd meddwl lefel isel; ac anghenion rhiantu pellach. Yn ychwanegol i'r bylchau, mae'r gwaith wedi edrych ar yr arferion da sydd wedi codi o raglenni ataliol lle byddai o fudd i ni gryfhau ein darpariaeth.

Er bod y gwaith yn mynd rhagddo o ran cadarnhau'r cyfeiriad a'r blaenoriaethu i'r dyfodol, mae'r gwasanaeth ymyrraeth gynnar a ddarperir trwy'r tîm Gyda'n Gilydd yn parhau i fod yn cynnig ymyraethau i deuluoedd mewn angen er mwyn ceisio osgoi anghenion gynyddu ac arbed cyfeiriadau i'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn amlwg mae cyfraniad ein partneriaid yn allweddol yma. Mae peth risg i'r elfen yma o'r gwasanaeth gan nad oes gwarant y bydd y grant yn parhau ar ôl Ebrill 2017 ac fe fydd angen felly, yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, canolbwyntio ar sut y gellir edrych ar gynnal y gwasanaeth i'r dyfodol.

> ***"Mae Gyda'n Gilydd wedi dod a ni allan o dwll. Roeddwn yn llithro mewn i iselder a ddim yn gallu gweld ffordd i ddod allan - roeddwn yn gwadu'r sefyllfa a doedd o ddim yn helpu'r plant"***
>
> ***(Defnyddiwr Gwasanaeth, Tîm Gyda'n Gilydd)***

Mae gwasanaethau Dechrau'n Deg wedi ymestyn yn sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf. Llwyddwyd i ymestyn y cynllun i ardaloedd newydd, ac fe ddatblygwyd darpariaeth gofal plant o'r newydd yn Nhalysarn ac ym Methesda. Agorwyd y darpariaethau hyn gan y Prif Weinidog. Mae'r prosiectau newydd yma yn cynnig cyfleoedd i deuluoedd mewn ardaloedd di-freintiedig, ac yn sicrhau fod cefnogaeth addas a phroffesiynol ar gael i deuluoedd yn y blynyddoedd cynnar.

Fel rhan arall o'r adolygiad a gwblhawyd yn 2014/15, awgrymwyd sefydlu tîm Trothwy Gofal. Pwrpas y tîm yma yw gweithio'n ddwys gyda phlant a theuluoedd pan mae sefyllfaoedd yn fregus, a phlant ar fin mynd i ofal. Llynedd oedd blwyddyn lawn weithredol gyntaf y tîm, ac mae'r datblygiad hwn yn cael ei weld yn un cyffrous a phwysig sy'n mynd i drawsnewid profiad plant a theuluoedd. Mae'r datblygiad sy'n cael ei weld yn ymarfer dda, ac ar ddechrau 2016 cafodd y gwasanaeth wahoddiad i gyflwyno gwaith y tîm mewn cynhadledd genedlaethol oedd yn cyflwyno datblygiadau newydd ym maes plant mewn gofal. Mae'r tîm wedi derbyn 73 o gyfeiriadau yn ystod y flwyddyn, ac wedi llwyddo i osgoi costau gofal o bron i £300,000 yn y flwyddyn gyntaf. Mae hyn yn argoeli yn dda iawn ar gyfer y cyfnod sydd i ddod fel y bydd y tîm yn gweithio gyda mwy o deuluoedd.

***"Mae nhw (y tîm Throthwy Gofal) wedi bod yn lot o help gyda trefn dyddiol, arian a gofal am ein plant. Rydym yn ddiolchgar iawn am yr holl gefnogaeth rydym wedi ei gael gan y gwasanaeth"***

***(Rhiant Defnyddiwr Gwasanaeth, Tîm Trothwy Gofal)***

Mae'r tîm Cyfiawnder Ieuenctid yn gweithredu ar draws Gwynedd a Môn yn parhau i fod yn llwyddiannus iawn ym maes gwaith arbedol, ac yn perfformio yn ardderchog yn erbyn targedau cenedlaethol yn y 6 maes allweddol. Mae'r niferoedd pobl ifanc sydd yn cael eu cyfeirio i'r gwasanaeth am y tro cyntaf wedi lleihau yn sylweddol, ac mae'r niferoedd sydd yn cael eu rhoi mewn dalfa ar ei isaf ers cyn 2005. Mae'r gwasanaeth yn cael ei redeg fel partneriaeth integredig, ac mae'r ymrwymiad gan bartneriaid yn dda iawn er bod peth pryder am y lleihad yn yr ariannu sydd ar gael gan y partneriaid statudol i gynnal y gwasanaeth. Yn ystod y flwyddyn mae sustem 'Biwro' wedi bod yn weithredol ac yn cynnig opsiynau yn y gymuned ar gyfer gwneud iawn yn hytrach na chanlyniadau ffurfiol o dan y drefn droseddol. Er bod y niferoedd sydd yn dilyn trywydd troseddol wedi gostwng, rydym yn gweld fod y bobl ifanc sydd yn derbyn ymyrraeth gan y tîm yn achosion cymhleth iawn, gyda nifer o'r unigolion yn ymwneud a throseddau dwys neu ymddygiad risg uchel. Bydd gwaith pellach yn digwydd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i sicrhau bod y gwasanaethau arbenigol a phriodol yn eu lle ar gyfer yr heriadau newydd hyn.

Mae rhai rhannau allweddol o'r ddeddf yn parhau i fod angen sylw, ac un o'r rhain yw'r angen i sefydlu trefniadau gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) o fewn y gwasanaeth. Roedd sefydlu "un drws ffrynt" yn un o'r argymhellion a gododd o'r adolygiad "dechrau i ddiwedd", ac mae hwnnw'n debyg iawn i'r gofyn deddfwriaethol. Disgwyliaf y bydd sefydlu'r gwasanaeth hwn yn flaenoriaeth i'r Adran Plant a Chefnog Teuluoedd yn ystod y misoedd nesaf.

- **Gwasanaethau Oedolion**

Mae'r prosiect 'Her Gofal' yn ceisio sicrhau fod pobl Gwynedd yn glir ynghylch yr her sy'n ein hwynebu o fewn y maes gofal gan ysgogi a chefnogi cymunedau i gyfrannu. Gellid mae'n debyg fod wedi trafod y prosiect fel rhan o bennod llesiant ond, er bod nifer o'r negeseuon sydd ynghlwm ag o yn gwella dealltwriaeth trigolion Gwynedd o'r ddeddf a'r hyn a olygir o ran llesiant - credaf fod y gweithgarwch cymunedol yr ydym yn gobeithio ei sbarduno yn mynd i arwain at ddatrysiadau ataliol eu natur a fydd yn lleihau gorddibyniaeth ar Wasanaethau Cymdeithasol.

Mae ffocws y prosiect dros y flwyddyn ddiwethaf wedi bod ar godi ymwybyddiaeth staff, aelodau etholedig, darparwyr, a phartneriaid. Roeddwn wedi gobeithio gweld mwy o ddatblygiad o ran rhaeadru'r neges gyda thrigolion a chymunedau yn ystod y flwyddyn, ond 'rwyf yn derbyn hefyd fod y prosiect hwn yn ymwneud a newid meddylfryd, ac mewn gwirionedd yn mynd i gymryd blynyddoedd o ymgysylltu a chyfathrebu effeithiol. Disgwyliaf y bydd yr ymgysylltu hefo cymunedau a thrigolion Gwynedd yn dechrau digwydd o ddifri yn ystod y flwyddyn sydd i ddod,

ac byddwn yn gwneud hynny trwy ymweliadau, rhannu gwybodaeth, adnabod cryfderau, cyfleoedd a bylchau.

Rydym yn anelu at sicrhau y bydd y math yma o gefnogaeth anffurfiol yn bodoli ar gyfer trigolion ar draws Gwynedd, ac y byddant yn gallu ei ddefnyddio fel y cam cyntaf cyn, neu ar y cyd hefo, unrhyw gefnogaeth fwy ffurfiol gan y Trydydd Sector neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Dylwn nodi hefyd nad ydym yn rhagweld y bydd y datrysiad neu'r gweithgarwch cymunedol yr un fath ar draws y sir, ac y bydd angen sicrhau ein bod yn cydweithio ac yn dilyn arweiniad ein cymunedau ran gweithredu.

Rwyf wedi cyfeirio yn barod yn yr adroddiad hwn at y Prosiect 'Gweithio'n Integredig i gyflawni'r hyn sy'n cyfri i unigolion', ac fel rhan o'r gwaith hwn bwriedir sefydlu timau integredig fyddai'n derbyn cyfeiriadau yn uniongyrchol gan unigolion neu sefydliadau gan fynd ymlaen hefyd i weithredu yn unol â'r angen. Mae'n debyg fod y model 'Un Pwynt Mynediad', sydd yn derbyn llawer o sylw yn genedlaethol, yn debyg i'r uchod, ond ein bod yn mynd un cam ymhellach trwy gyfuno'r cydran gwybodaeth gyda'r gweithredu, gan arbed i'r unigolyn orfod ddelio gyda niferoedd o bobl broffesiynol o dimau gwahanol. Rwy'n disgwyl gweld y bydd gyrru'r rhaglen waith hon yn ei blaen yn flaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod, ac y byddwn yn ymateb i'r her rydym wedi ei gael gan rai defnyddwyr o ran yr amserlen wreiddiol gogyfer a sefydlu'r trefniadau newydd yng ngweddill y sir.

Ar hyn o bryd mae'r trefniadau newydd yn weithredol yn ardal Eifionydd yn unig. Mae'r adran yn ceisio gweithredu mor gyflym ag sy'n ymarferol bosib, ond heb symud y rhaglen yn ei blaen yn rhy frysiog oherwydd yr angen i reoli'r newid diwylliant sy'n allweddol i lwyddiant. Agwedd arall o'r datblygiad yw'r ffaith bod y tîm integredig yn amlwg angen ymrwymiad y Bwrdd Iechyd, ac mae'r ffaith bod y Bwrdd dan fesurau arbennig wrth reswm wedi bod yn her ychwanegol. Yn y dyfodol agos byddaf yn trafod gyda'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, i ystyried ym mha fodd y gellir plethu'r trefniadau ar draws meysydd oedolion i gyd.

Mae elfennau ataliol uniongyrchol ynghlwm hefyd a'r ffordd newydd o weithio. Gan bod y tîm yn Eifionydd yn aml ddisgyblaethol, ac yn gweithio'n integredig, mae modd ystyried sefyllfa'r unigolyn yn llawn, yn ogystal hefyd a'u partner, teulu neu ffrind. Mae llawer o enghreifftiau ble mae'r sgwrs ynglŷn â 'Be sy'n cyfri' wedi arwain at ddatrysiadau tra gwahanol i'r hyn y byddai rhywun wedi ei ragweld yn wreiddiol. Yn aml iawn hefyd mae'r datrysiadau o natur ataliol, ac yn mynd i'r afael a phroblemau cyn eu bod yn datblygu'n llawn. Mae'r ffaith nad oes criteria mynediad yn cael ei ddefnyddio bellach, a'r ffaith mai'r un tîm sy'n ymateb i'r galw a hefyd wedyn yn gweithredu, yn ei gwneud yn llawer haws ystyried y darlun yn llawnach a thrwy hynny allu manteisio ar ymyrraeth gynnar. O sylweddoli fod nifer o achosion y tîm Integredig yn ymwneud ac addasiadau lletya penderfynwyd y byddai'n fanteisiol cael cyswllt uniongyrchol o fewn y tîm – ac erbyn hyn mae gweithiwr o'r Trydydd Sector, sef Gofal a Thrwsio yn aelod o'r tîm.

Mae'r ddeddf newydd yn rhoi pwyslais ar sicrhau fod y defnydd gorau yn cael ei wneud o'r Trydydd Sector, ac rydym mewn sefyllfa gref yma yng Ngwynedd o ran y ddarpariaeth sydd ar gael i drigolion ar draws y sir. Rydym, trwy nifer o fforymau, wedi bod yn cydweithio a thrafod yn helaeth gyda'r Trydydd Sector, gan gynnwys mentrau cymdeithasol, ynglŷn â sut sydd orau i gynllunio gwasanaethau ar gyfer y dyfodol. Credaf fod angen datblygu ymhellach yr agwedd hon o'r gwaith, oherwydd fod gan y Trydydd Sector a'r mentrau cymdeithasol rannnau allweddol i'w chwarae o ran diwallu anghenion ein trigolion a chynnig cyfleoedd newydd. Mae'n hanfodol ein bod yn gweithio'n llawer agosach os am wynebu'r heriau sydd o'n blaenau yn llwyddiannus. Mae'r cyfnod o gyfyngder ariannol yn golygu fod yn rhaid i'r Cyngor, ynghyd a'r Trydydd Sector, ystyried sut orau i gynnal model busnes cynaliadwy i'r dyfodol tra'n parhau i rhoi'r prif ffocws ar gyflawni'r hyn sy'n bwysig i'n trigolion.

Mae gwaith wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn o ran datblygu'r cyfleoedd sydd ynghlwm a'r prosiect OPUS sydd yn cael ei arwain ar draws gogledd orllewin Cymru. Pwrpas y prosiect yw lleihau lefelau anweithgarwch economaidd gan gynyddu cyflogadwyedd unigolion bregus. Bydd Gwynedd yn canolbwyntio ar bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl, anableddau dysgu, gofalwyr, pobl hŷn dros 54 a phobl sydd ar y sbectrwm awtistiaeth. Ragwelir y bydd y cynllun busnes yn cael ei gymeradwyo yn fuan yn y flwyddyn 2016/17, a bydd gweithredu yn flaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Mae datblygiadau pellach wedi bod yn ystod y flwyddyn o ran moderneiddio'r Gwasanaeth Anableddau Dysgu, ac yn benodol gweithredu'r model 'Symud Ymlaen'. Gweledigaeth y model yw bod pob unigolyn yn cyflawni hyd eithaf ei allu, ac yn cael ei annog i anelu'n uwch a meithrin sgiliau a phrofiadau newydd o hyd. Mae'r egwyddor yma yn cael ei ddefnyddio ar draws y Gwasanaeth Anableddau Dysgu yng Ngwynedd, a gwelwyd yn ystod y flwyddyn enghreifftiau o unigolion sydd wedi datblygu sgiliau newydd yn mwynhau profiadau gwahanol.

Ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod fe fyddwn yn parhau i geisio sicrhau fod yr egwyddorion hyn yn cael eu creiddio yn y gwasanaethau, ac yn manteisio ar unrhyw gyfleodd sy'n codi gan sicrhau hefyd ein bod yn cydweithio mor effeithiol â phosib gyda'n partneriaid.

Mae cynlluniau mwyaf llwyddiannus y Gronfa Gofal Canolraddol yn 2014/15 wedi parhau yn ystod y flwyddyn 2015/16. Mae cais wedi ei wneud eto er mwyn parhau'r gwaith da ar gyfer y flwyddyn 2016/17. Y prif allbynnau i ddeillio o'r gronfa yn benodol yw'r nodau o geisio lleihau'r galw ar ysbytai gan ryddhau gwlâu; a threialu gweithio saith diwrnod fel rhan o ddatblygiad y timau integredig yn y gymuned. Dyma ddyfyniad gan unigolyn sydd yn mynychu gweithgareddau corfforol ym Mhwllheli sydd yn benodol i bobl sydd yn byw hefo Dementia a'i gofalwyr.

> ***"Dwi'n falch iawn mod i'n dod yma wir. Yn enwedig pan ryda chi ar eich pen eich hun chi – mae o'n gwneud lot fawr o wahaniaeth"***

*(Mynychwyr sesiynau Dementia Go, Canolfan Hamdden Dwyfor)*

## 5. Pobl a sicrhau llais i ddefnyddwyr gwasanaeth

Yn y bennod hon byddaf yn rhoi sylw'n benodol i'r plant a'r oedolion rheini sy'n derbyn gofal neu gefnogaeth uniongyrchol gennym fel awdurdod. Trafodwyd gennym yr egwyddor o geisio sicrhau nad yw unigolion yn mynd yn ddibynnol ar wasanaethau fel rhan o bennod 4, ond yr egwyddor arall gyfychrog yw'r fyw'r ffaith y gall plant ac oedolion ddefnyddio gwasanaethau ataliol a dwys yn ôl yr angen. Yn y gorffennol roedd tueddiad i ni drin pawb yn unol â meini prawf arbennig ac, os oedd angen cefnogaeth neu ofal arnynt, yn credu fod yr unigolion hynny angen y gefnogaeth hynny am byth. Mae'n debyg hefyd ein bod wedi bod yn euog o ddweud hynny wrth ein defnyddwyr gwasanaeth yn ogystal, gan godi pryder mae un cyfle oedd ganddynt i dderbyn hawl i wasanaeth.

Mae'n hanfodol ein bod yn symud oddi wrth y ffordd yma o feddwl gan sicrhau fod y gefnogaeth orau posib ar gael pan fo'i angen, ond fod ein trigolion hefyd yn deall nad oes rheidrwydd derbyn hwnnw am byth a bod posib iddynt ddod yn ôl atom os nad ydynt yn teimlo'n fodlon. Mae sefyllfaoedd pobl yn newid yn ddyddiol, ac mae'n bwysig ein bod yn teilwrio ein gwasanaethau i ymateb i hynny. Er wedi dweud hyn wrth gwrs, pwysleisiaf fod yna unigolion ac achlysuron ble y bydd angen gofal parhaus, a byddwn bob amser yn sicrhau fod modd cynnig y gefnogaeth honno i drigolion y sir.

Ar y pwynt hwn mae'n debyg ei fod werth i mi amlygu gwaith sydd wedi bod yn mynd ymlaen yn ystod y flwyddyn o ran paratoi'r gweithlu tuag at y ddeddf, ac yn benodol y rhaglen hyfforddiant cynhwysfawr wedi ei chynnal. Mae newidiadau sydd ynghlwm a Rhan 3 a Rhan 4 o'r ddeddf, sef asesu a diwallu anghenion unigolion yn golygu newid diwylliant ar draws y meysydd oedolion a phlant. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo i sefydlu gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth (sy'n cael ei drafod ym mhennod 4) gyda chysylltiad amlwg gyda'r trefniadau i sicrhau fod teuluoedd yn derbyn sylw sydd yn cyd-fynd â lefel eu hanghenion gan fod gan bawb yr hawl am asesiad anghenion. Law yn llaw a hyn mae elfen diwallu anghenion hefyd yn derbyn sylw trwy raglenni gwaith megis gweithio'n integredig. Mae Rhan 17 (Plant Mewn Angen) o ddeddf Plant 1989 yn cael ei ddisodli gan y ddeddfwriaeth newydd sydd yn golygu y bydd y plant a'r bobl ifanc yma yn derbyn sylw fel plant sydd yn derbyn cynllun gofal a chefnogaeth yn unol â'u hanghenion, ac mae angen cryfhau'r gwasanaethau arbedol ac ataliol sydd ar gael i ddiwallu anghenion ar draws y sbectrwm angen. I'r perwyl yma mae asesiad anghenion wedi ei gwblhau a'r prif flaenoriaethau o ran y gofynion comisiynu i'r dyfodol wedi eu hadnabod - hyderaf y bydd y strategaeth weithredol yn chwarae rhan allweddol yn natblygiad gwasanaethau cynaliadwy i'r dyfodol.

Yn benodol o ran Rhan 4 o'r ddeddf mae Polisi Codi Tal Newydd wedi ei fabwysiadu ac yn weithredol. Yn ystod y flwyddyn bwriedir adolygu'r polisi er mwyn gwerthuso'r opsiynau sydd ar gael i godi incwm o dan ofynion y ddeddf.

Rhan greiddiol o unrhyw ddarpariaeth gofal, ac sydd yn rhan allweddol o 'asesu anghenion unigolion', yw'r angen i sicrhau bod defnyddwyr yn gallu derbyn y gwasanaeth yn yr iaith Gymraeg. Fel rwyf wedi nodi mewn adroddiadau blynyddol yn y gorffennol mae Fframwaith Mwy na Geiriau'r Llywodraeth yn amlinellu'r gofyn ar i awdurdodau lleol ymateb yn llawn i'r disgwyliad hwn, ac yn benodol i'r angen am y 'Cynnig Rhagweithiol'. Ystyr 'Cynnig Rhagweithiol' yn syml yw darparu gwasanaethau yn Gymraeg heb i unrhyw un orfod gofyn amdano. Mae'r Fframwaith dilynol i'r Fframwaith gyntaf wedi ei mabwysiadu gan y Llywodraeth yn ddiweddar, ac yn awr yn adeiladu ar y gofynion hyn. Mae cynllun gweithredu yn ei le ar gyfer cwrdd â'r gofynion hyn. Erbyn hyn mae Cyngor Gwynedd wedi lansio ei Bolisi Iaith Gymraeg. Mae'r polisi yn rhoi cyfeiriad clir i staff, comisiynwyr, darparwyr preifat, a'r cyhoedd ynghylch sut y bwriada Cyngor Gwynedd gydymffurfio a'r Safonau Iaith. Mae'r polisi hefyd yn annog pobl Gwynedd i fanteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned. Mae egwyddorion Mwy na Geiriau wedi ei ymgorffori yn y polisi hwn.

Rwyf yn arwain ar yr agenda 'Mwy na Geiriau' yn genedlaethol ar ran cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol Cymru ac yn aelod o Dasglu'r Gweinidog. Mae'r rôl yma yn golygu fy mod wedi bod yn rhan o ddatblygu'r Fframwaith gyfredol, ac rwyf yn ceisio sicrhau bod awdurdodau lleol arall yn gallu dysgu o brofiadau positif Gwynedd.

Rwyf wedi rhannu'r wybodaeth isod rhwng y ddwy adran berthnasol, sef Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ac Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant:-

- **Gwasanaeth Plant**

Mae cynnydd wedi bod yn niferoedd plant mewn gofal yn ystod y flwyddyn. Gwelwn bellach fod 207 o blant mewn gofal (ar ddiwedd Mawrth 2016) o'i gymharu â 185 y llynedd (ar ddiwedd Mawrth 2015.) Mae wedi bod yn ofynnol i ad-drefnu dosraniad yr adnoddau mewnol er mwyn cwrdd â hyn, a chynyddu gwytnwch i gynnal a datblygu gweithrediadau. Mae'n debyg bod cwestiwn a yw hyn yn fater pryder ai peidio o ystyried yr holl ymdrech sydd wedi bod yn y cynlluniau ataliol eu natur, gan gynnwys y datblygiad diweddar o'r Tîm Trothwy Gofal. Mae pwysau cenedlaethol yn ogystal, gyda'r cyn Weinidog wedi cyfeirio sawl tro at yr angen i leihau'r plant mewn gofal. Mae'r adran, serch hyn, yn glir bod y cynnydd yn ymateb i'r angen ac y byddai'r cynnydd wedi bod yn uwch na hyn petai'r ymyraethau eraill ddim yn bodoli.

Mae'r Panel Rhiantu Corfforaethol yn amlwg yn cadw trosolwg o'r maes pwysig hwn ac yn ceisio sicrhau fod pob plentyn mewn gofal yn cael y gwasanaeth, y gofal a'r gefnogaeth sydd yn ddyledus i unrhyw blentyn arall. Mae angen i'r Cyngor sicrhau ei fod yn riant da i'r plant a'r bobl ifanc yma ac yn uchelgeisiol ar eu cyfer. Mae

angen gwaith pellach ar ddau faes sef cynlluniau addysg a hefyd asesiadau iechyd. Yr her i'r Panel yw sicrhau bod llais y plentyn cael ei glywed ac ein bod yn ymateb i hyn.

***"Diolch am wrando arna i ac am newid fy mhecyn gofal"***

***(Defnyddiwr Gwasanaeth, Tîm Plant Arfon)***

Mae'r Uned Ddiogelu ac Ansawdd wedi datblygu fframwaith ganlyniadau ar gyfer adolygiadau statudol plant mewn gofal ac amddiffyn plant fel rhan o ddatblygiad model gwarantu ansawdd. Mae'r fframwaith yn canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau i blant a mesur effaith y gwaith sydd yn cymryd lle, ac mae gweithdai datblygu ymarfer wedi eu cynnal yn ystod y cyfnod. Er gwybodaeth yn ogystal mae'r uned yma bellach yn gyfrifol am reoli gwaith y tîm allan i oriau gwaith Gwynedd a Môn.

Mae'r Gwasanaeth Cefnogol Derwen, tîm integredig ar gyfer plant a phobl ifanc anabl a sâl, wedi gweld y newidiadau deddfwriaethol a'r angen i ganfod arbedion effeithlonrwydd yn gyfle wneud newidiadau yn y ffordd maent yn gweithio. Mae'r trefniadau newydd yn ateb yr angen am wasanaeth, ac yn seiliedig ar ganlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth yn unol â gofynion y ddeddf. Mae'r gwasanaeth wedi bod yn edrych ar sut i ddenu gwirfoddolwyr i weithio mewn sefyllfaoedd grŵp, neu gyda rhieni unigol fel modd o ymestyn y ddarpariaeth sydd ar gael. Mae gwaith wedi'i wneud i gyflwyno pecyn adnoddau 'Gaf i ymuno a chdi' ar gyfer staff rheng flaen i annog cyfathrebu cymdeithasol drwy gyfrwng chwarae yn arbennig ar gyfer plant sydd ar y sbectrwm awtistiaeth, ac i'r perwyl hyn cynhaliwyd cynhadledd ble croesawyd dros 100 o fynychwyr i'w lansio.

Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod byddwn yn gweld agoriad yr uned egwyl fer newydd sydd ynghlwm wrth Ysgol Hafod Lon Newydd. Bydd yn gyfle euraidd i gynnig gwasanaeth egwyl fer i fwy o deuluoedd.

Mae'r Gwasanaeth Maethu yn parhau i fod yn wasanaeth sydd yn perfformio yn dda. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd 99 gofalwr maeth yn gofrestredig i Wynedd, sydd yn gynnydd o 4, ac mae'r gwasanaeth yn parhau i recriwtio. Mae cynnydd sylweddol wedi bod yn ystod y flwyddyn yn y pwysau gan y llysoedd teulu i gynnal asesiadau personau cysylltiedig fel opsiwn gofal ar gyfer plant. Cynhaliwyd arolwg blynyddol o'r gwasanaeth gan yr Arolygaeth Gofal yn ystod mis Ionawr eleni, a daethpwyd i'r casgliad fod y 'gwasanaeth maethu a ddarperir gan Gyngor Gwynedd yn sicrhau bod amrywiaeth o leoliadau maethu i blant a phobl ifanc'. Casglwyd adborth gofalwyr am ansawdd y gefnogaeth a'r cymorth y maent yn ei gael, ac roedd yr adborth yn un cadarnhaol iawn gyda'r gefnogaeth gan eu gweithwyr goruchwyliol yn cael ei werthfawrogi ac yn cael ei adnabod fel ffactor bwysig yn eu dewis i faethu i Wynedd. Sefydlwyd grŵp cefnogol yn ystod y flwyddyn i ofalwyr sydd yn gofalu am aelodau o'u teulu eu hunain. Mae hyn yn golygu fod modd iddynt leisio eu barn, manteisio ar hyfforddiant, rhannu eu

profiadau, a chael cefnogaeth gan eu gilydd sy'n fanteisiol dros ben gan eu bod mewn sefyllfaoedd eithaf heriol ac unigryw.

Mae'r tîm ôl 16 yn ystod y flwyddyn wedi parhau i fod yn rhan o'r cynllun peilot 'Pan fydda i'n barod'. Cynllun i hybu pobl ifanc mewn gofal ac i ymestyn eu lleoliadau maeth tu hwnt i'w penblwyddi yn ddeunaw oed yw hwn, a'r bwriad yw arbed pobl ifanc rhag gorfod symud allan i fyw yn annibynnol yn rhy fuan. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd chwech o bobl ifanc yng Ngwynedd yn rhan o'r cynllun. Gan fod y cynllun yma bellach hefyd wedi dod yn gyfrifoldeb statudol ar bob awdurdod o fis Ebrill 2016 ymlaen, mae'r gwasanaeth wedi bod yn allweddol wrth arwain grwpiau tasg a gorffen ar draws y rhanbarth ar gyfer paratoi awdurdodau eraill ar gyfer gweithredu'r cynllun. Mae'r tîm yn parhau i fod yn hybu cyfleoedd gwaith a hyfforddiant i bobl ifanc, ac wedi bod y rhan o'r Fwrdd Rheoli'r Fframwaith Ymgysylltu. O ganlyniad i hyn mae cais am arian Ewropeaidd yn cael ei baratoi er mwyn cryfhau'r cyfleoedd ar gyfer addysg, gwaith a hyfforddiant i'r garfan hon o bobl ifanc.

Yn ystod y flwyddyn gwelwyd cynnydd yn y niferoedd o achosion oedd angen ymyrraeth diogelu oherwydd eu bod yn arddangos nodweddion o ecsploetiaeth rhywiol (*Child Sexual Exploitation*). Mae'r gwasanaeth wedi bod yn rhoi sylw penodol i'r maes yma dros y flwyddyn, ac mae yn cael ei gydnabod fel mater o flaenoriaeth ac yn derbyn sylw ar lefel strategol. Mae'r gwasanaeth yn cyfrannu tuag at weithrediad cynllun gweithredu rhanbarthol ac yn cydweithio yn agos gyda'r tîm penodol yn yr heddlu sydd wedi ei sefydlu. Mae'r gwasanaeth yn ogystal wedi adnabod a dynodi ymddygiad rhywiol niweidiol fel mater o flaenoriaeth, ac wedi blaenoriaethu adnoddau er mwyn cyflogi swyddog profiadol dros dro i ddatblygu ac arwain ar strategaeth i ddelio gyda'r achosion hyn.

- **Gwasanaethau Oedolion**

Cyfeiriwyd yn yr adroddiad eisoes at y trawsffurfio sylweddol sydd ar waith o fewn y maes oedolion, sydd yn cynnwys yr ymgysylltu hefo cymunedau yn ogystal â'r gweithio'n integredig. Ni ellir gor-bwysleisio graddfa'r newid sydd ar waith o ran ymarfer proffesiynol. Yn unol â'r ddeddf mae'r ymgais i geisio sicrhau fod yr unigolyn yn flaenllaw, a'n bod felly angen trawsnewid ein ffordd o weithio o fod yn ceisio ffitio unigolion i mewn i wasanaethau at fod yn dylunio gwasanaethau o gwmpas yr unigolyn. Mae hyn yn golygu newid yn y ffordd mae gweithwyr y maes yn ymgysylltu hefo unigolion, trefnu ein hunain fel timau, yn ogystal hefyd a'r opsiynau cefnogaeth sy'n cael ei gynnig ar draws y sir.

Mae'r prosiect 'Gweithio'n Integredig ar yr Hyn sy'n cyfri i unigolion' yn llawer mwy na phrosiect mewn gwirionedd, ac yn golygu newid diwylliant a newid meddylfryd. Heb os mae'r newid dan sylw wedi profi llwyddiannau a chanlyniadau i unigolion y gellir ymfalchïo ynddynt, ond ni allwn chwaith guddio'r ffaith ei bod wedi bod yn anodd ar brydiau ac yn heriol i bob un ohonom yn enwedig staff. Mae'n debyg fod

cyfnodau hefyd o rwystredigaeth wedi bod yn ystod y flwyddyn, ac yn benodol o ran pa mor araf yw cyflymdra'r newid.

Serch hyn rwy'n ffyddiog y byddwn yn gweld datblygiad gwirioneddol o ran y trawsnewid hwn yn ystod y flwyddyn nesaf, a bydd ymdrech pellach yn cael ei wneud o ran yr ymgysylltu a'r cyfathrebu hefo trigolion a holl staff y maes. Mae'n bwysig i gofio, er y rhwystredigaethau ar brydiau, bod unigolion sydd wedi profi'r gwasanaethau newydd yn bositif iawn eu hymateb, a gweler isod dyfyniad gan un o'n defnyddwyr sy'n 98 oed:

> ***"Mae Gwasanaethau'r sir heb ei ail faswn i'n ddweud a dim seboni ydi hyn, dwi'n dweud y gwir. Dwi'n gwybod pa mor bwysig ydi'r cyswllt unigol i gadw pobl yn hyderus i gario ymlaen i fyw eu bywydau fel y maen nhw eisiau byw. Ac os na fedrant nhw neud, bod 'na rywun uno i roi ychydig o gefn a chyngor - yn hytrach na gorfod mynd o un i'r llall, a ddim yn gwybod yn union pwy ydi pwy a pwy sy'n gyfrifol am be"***

***(Defnyddiwr Gwasanaeth, Tîm Integredig Eifionydd)***

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf un o'r prif faterion sydd wedi peri pryder cyson yw sefydlogrwydd a chynaliadwyedd ein Cartrefi Nyrsio ar draws y sir. Bu nifer o gartrefi mewn sefyllfa lle gwelwyd pryderon cynyddol, ac mae hyn yn amlygu pa mor fregus yw'r sector. Mae'r cyfradd oedi wrth drosglwyddo o ysbytai am resymau gofal cymdeithasol wedi dirywio'n sylweddol eleni hefyd, gyda chynnydd o 1.05% yn 2014/15 i 2.45% eleni. Er hyn, o gymharu â Chymru gyfan, mae perfformiad Gwynedd yn parhau'n gyson dda, ond rhaid cydnabod bod peth dirywiad wedi bod. Mae'r perfformiad hwn yn adlewyrchu diffygion cyffredinol y system iechyd a gofal o ran y galw uchel sydd ar yr ysbytai, diffyg gwlâu nyrsio yn y gymuned, a hefyd prinder capasiti o ran gweithwyr proffesiynol a gofalwyr cartref mewn rhai ardaloedd penodol o Wynedd. Yn dilyn o hyn, mae'r mesur sy'n 'adolygu cynlluniau gofal' yn dangos dirywiad o 85% yn 2013/14 hyd at 79% erbyn 2015/16. O ddadansoddi'r ffigwr hwn ymhellach fesul ardal gwelir bod perfformiad Meirionnydd yn sylweddol is na rhannau eraill o Wynedd. Credaf fod y dirywiad hwn yn amlygu eto'r prinder capasiti amlwg mewn rhai ardaloedd, ac mae trafodaethau yn parhau gyda'r Byrddau Iechyd i geisio datblygu modelau amgen priodol i ymateb i'r problemau.

Mae'n gyfnod anodd a heriol yn ogystal o ran costau darparu gwasanaethau. Mae'r sefyllfa ariannol yn rhoi pwysau ar draws y sector, ac rydym ar y cyd hefo'n partneriaid yn ceisio ymateb yn rhagweithiol i'r sialensiau sydd ac a fydd yn ein hwynebu yn y dyfodol.

> ***"Mae'r gofalwyr bob amser o gymorth, llon, gyda gwen ar eu hwynebau ac yn optimistaidd. Maent yn rhoi'r ewyllys i mi fyw pan mae pethau yn edrych yn ddu iawn. Mae ein gofalwyr bob amser yn broffesiynol iawn a does dim yn ormod o drafferth iddynt. Maent fel angylion i mi a fy ngwraig"***

***(Defnyddiwr Gwasanaeth, Gofal Cartref Mewnol)***

Mewn ymateb i'r argyfwng comisiynodd y Cyngor Llawn ym mis Mawrth 2016 brosiect newydd - 'Capasiti a chynaliadwyedd y gyfundrefn gofal ac iechyd'. Pwrpas y prosiect yw ceisio ymateb i'r problemau cyfredol o ran darpariaethau gofal ac iechyd o fewn y maes pobl hŷn yn benodol. Trwy weithredu'r prosiect, ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd, rydym yn ceisio sicrhau y bydd gennym y gyfundrefn fwyaf addas yn ei lle ar draws y maes gofal ac iechyd i'r dyfodol. Ond tra bod y prosiect hwn yn ceisio ymateb i'r pryderon mwyaf ar draws y maes gofal ac iechyd, mae prosiectau eraill hefyd wedi bod yn weithredol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf er mwyn ceisio cyflawni'r weledigaeth o ran cynyddu a gwella'r opsiynau lletya sydd a'r gael i'n trigolion. Enghraifft o hyn yw'r datblygiad Tai Gofal Ychwanegol sy'n cael ei weithredu yn ardal Porthmadog, a'r penderfyniad hefyd i ddatblygu model llety newydd ar gyfer oedolion gydag anableddau dysgu ar safle Frondeg yng Nghaernarfon. Yn ystod y flwyddyn hefyd llwyddwyd i sicrhau cytundeb ar y Strategaeth Letya Pobl Hŷn a'i defnyddio i bwrpas trafodaethau datblygol gyda phartneriaid.

Ar y cyfan, mae'r mesurau perfformiad eleni yn awgrymu fod y gwasanaeth ar y trywydd cywir. Er enghraifft, mae gostyngiad i weld yng nghyfran y bobl sydd yn derbyn cefnogaeth draddodiadol yn y gymuned a hefyd yn ein cartrefi preswyl. Mae hyn o bosib yn awgrymu ein bod yn dibynnu llai ar ofal traddodiadol o'i gymharu â'r blynyddoedd cynt. Gwelwyd twf graddol hefyd yn y defnydd o daliadau uniongyrchol sydd eto wrth gwrs yn hybu ac yn grymuso unigolion i fyw bywydau yn ol fel y dymunant hwy ei fyw.

Bu Gwynedd hefyd yn rhan o archwiliad cenedlaethol gan yr Arolygaeth Gofal i'r maes Anableddau Dysgu. Roedd tystiolaeth gadarn fod gwaith gweithredol rheng flaen o ansawdd da, ynghyd ag enghreifftiau o gyd-weithio ymroddgar ac effeithiol gyda'r Gwasanaeth Iechyd mewn modd ag oedd yn rhoi'r unigolyn yn y canol. Er hyn, mae o hyd angen i ni aeddfedu ein cynlluniau comisiynnu a sicrhau ymgysylltu rheolaidd gyda'n defnyddwyr, rhieni / gofalwyr, a darprwyr. I grynhoi, nodwyd fod brwdfrydedd ac egni amlwg i'w gweld ym maes gwaith anableddau dysgu yng Ngwynedd a bod gan y gwasanaeth 'enw da'. Mae rhaglen waith wedi ei llunio mewn ymateb i'r archwiliad, ac rwy'n disgwyl y bydd ei gweithredu yn flaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Dylwn nodi fod darpariaeth sy'n cael ei redeg yn fewnol ran Gofal Cartref a Gofal Preswyl wedi derbyn archwiliadau blynyddol gan yr Arolygaeth Gofal yn ôl yr arfer, ac rwy'n falch o gael adrodd y cesglir fod perfformiad y gwasanaethau hyn yn dda iawn.

Un maes gwaith a fydd yn parhau i dderbyn sylw penodol i'r dyfodol fydd Iechyd Meddwl. Nid yw wedi bod yn gyfnod hawdd y llynedd o ran sicrhau trafodaethau gyda'r Bwrdd Iechyd ond, gyda phenodiad y Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl yn ddiweddar, hyderaf y bydd cyfle nawr i ymateb yn gadarnhaol i'r pryderon sy'n parhau.

## 6. Llywodraethu y Gwasanaethau Cymdeithasol

Fel yr wyf wedi nodi mewn adroddiadau blynyddol blaenorol, mae gan yr awdurdod ddwy adran sydd yn canolbwyntio yn benodol ar y maes gofal. Mae dau bennaeth adran, sef Marian Parry Hughes (Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd) ac Aled Davies (Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant) yn arwain y ddwy adran a hoffwn ddiolch i'r ddau am eu gwaith caled ac ymroddiad dros y flwyddyn a fu. Mae wedi bod yn flwyddyn o her wrth weithio tuag at ddyfodiad y ddeddf yn ogystal ag ymateb i'r heriau ariannol a gweithredol. Mae eu cefnogaeth i mi fel y Cyfarwyddwr Statudol yn hanfodol ac rwy'n falch o adrodd ein bod yn cydweithio'n dda fel tîm.

Cymorth allweddol i mi fel Cyfarwyddwr Statudol yw cyfraniad Craffu. Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau am eu sylwadau a'u cefnogaeth. Mae gwaith arbennig wedi ei wneud o ran yr archwiliad "O'r Ysbyty i'r Cartref", ac mae eu craffu parhaol ar feysydd arbennig yn cynnig persbectifau pwysig i mi, i'r ddwy adran, yn ogystal a hwyluso cyfleoedd i wella profiadau i ddefnyddwyr gwasanaeth. Serch hyn dylid nodi fod y rheoleiddwyr wedi amlygu'r angen am i'r Cyngor adolygu ei drefniadau craffu, ac mae'r adolygiad yma yn awr eisoes ar waith.

Mae newidiadau anorfod wedi digwydd dros y flwyddyn o ran symud unedau rhwng y ddwy adran, a bydd y broses hon yn debygol o barhau tra rydym yn darganfod y ffordd fwyaf effeithiol o weithredu. Fod bynnag rhan o hyn yw gwrando ar farn staff a defnyddwyr er mwyn sicrhau nad ydym yn cymhlethu gweithdrefnau yn ddiangen.

Rhan o'r ddeddf sydd yn bwysig i mi dynnu'ch sylw ati, yw Rhan 8, sydd yn nodi'r gofynion sydd arnaf fel y Cyfarwyddwr Statudol am y Gwasanaethau Cymdeithasol. Bu i'r Cabinet gymeradwyo 'Protocol y Cyfarwyddwr' yn ddiweddar - protocol yw hwn sydd yn amlinellu sut y byddwn yn sicrhau ein bod yn cyfarch y gofynion deddfwriaethol. Mae'r protocol yn sicrhau trefniadau llywodraethu cadarn ynghyd a llinellau atebolrwydd cryf. Mae'r protocol hwn ar gael ar y wefan, ac mae'n bwysig fod staff ac aelodau hefyd yn ymgyfarwyddo eu hunain gyda'r gofynion.

Ni ellir edrych yn ôl ar y flwyddyn a fu heb nodi pa mor anodd y buo hi o ran bylchau strwythurol, yn enwedig ar lefel uwch reolaeth o fewn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant. Heb os mae'r cyfnod wedi bod yn heriol o ran symud rhaglenni gwaith yn eu blaen, ond hefyd wedi bod yn gyfnod ansefydlog i staff. Mae'n anorfod ar brydiau fod staff ac arweinwyr allweddol yn mynd i fod yn absennol, naill ai oherwydd salwch neu oherwydd diffyg penodi. Ond y mae'n glod i'r adran hon ei bod wedi gallu cyflawni gyda'r her ychwanegol hwn.

Rhan allweddol o unrhyw drefniant llywodraethu yw'r gallu i gadw o fewn adnoddau. Braf iawn felly yw gallu adrodd bod y ddwy adran, sef Oedolion, Iechyd a Llesiant, a Phlant a Chefnogi Teuluoedd, wedi llwyddo i gadw oddi fewn i'w cyllidebau ar gyfer 2015/16. Er yr heriau ariannol, a'r angen i gyflawni arbedion

effeithlonrwydd, mae'r ddwy adran wedi llwyddo i gwblhau'r flwyddyn o fewn eu cyllideb. Heb bwyso ar ein rhwyfau mae'r dystiolaeth hon o gadernid a chynllunio ariannol cyfrifol yn argyhoeddi yn dda ar gyfer blynyddoedd heriol ariannol i'r dyfodol.

Mae'r gwaith cymharu ariannol ar draws Cymru a'r dadansoddi sydd wedi ei wneud dros y blynyddoedd diwethaf trwy ymchwiliadau megis dechrau i ddiwedd yn y maes plant a'r maes oedolion wedi golygu fod sail bendant wedi bod i'r arbedion effeithlonrwydd yr adrannau dan sylw. Roedd y gwaith cymharol a wnaethpwyd yn awgrymu fod gennym le i wella o ran gwerth am arian, ac mae'r holl gynlluniau arbedion effeithlonrwydd yn ymateb i hynny.

Mae trefniadau yn eu lle i adrodd yn ol yn gyson ar gwynion yn codi o'r maes gofal, ac mae pob ymdrech yn cael ei wneud i ddatrys, ymateb, a dysgu ohonynt mor fuan â phosib. Er bod adroddiad blynyddol yn cael ei cyflwyno sydd yn rhoi trosolwg o'r holl gwynion yn ystod 2015/16 hoffwn gymryd y cyfle yn yr adroddiad hwn i grynhoi'r prif dueddiadau. Yn benodol o ran y maes plant mae cwynion anorfod wedi bod o ran disgwyliadau rhieni mewn sefyllfaoedd anodd. Yn neilltuol wedyn o ran y maes oedolion mae cwynion wedi bod ynghylch diffyg darpariaeth yn Ne Meirionnydd, yn ogystal a gwendidau o ran ymgysylltu a chyfathrebu gyda defnyddwyr gwasanaethau a theuluoedd cyn gwneud newidiadau i ddarpariaethau. Thema gyson hefyd ar draws y ddau faes yw'r ffaith fod defnyddwyr unigol neu eu teuluoedd yn anhapus gyda'r lleihad yn y gefnogaeth maent yn ei dderbyn.

Mae'n hanfodol felly ein bod yn sylweddoli ein cyfrifoldeb o ran ymgysylltu a chyfathrebu clir gyda defnyddwyr gwasanaeth ynglŷn ag unrhyw newid arfaethedig neu sydd yn digwydd. Fel sydd wedi'i ddweud amryw o weithiau yn yr adroddiad hwn, rydym yn ceisio'n barhaus dylunio'r gwasanaethau o gylch yr unigolion sydd yn ei derbyn, ac er mwyn gwneud hyn mae angen iddynt hwy fod yn rhan o unrhyw drafodaethau ynglŷn â newidiau o'r dechrau cyntaf un a gydol yr adeg wedi hynny. Yn wir mae'r angen i wella ymgysylltu a chyfathrebu yn wers gyffredinol i ni o ran e.e. mynd a staff trwy newid yn ogystal. Yn gyffredinol dylwn nodi hefyd fod staff unigol a thimau penodol wedi derbyn canmoliaeth yn ystod y flwyddyn gan ddefnyddwyr gwasanaethau, teuluoedd, a gweithwyr proffesiynol eraill. Er enghraifft yn nodi yn gyson sut maent wedi mynd allan o'r ffordd i helpu mewn sefyllfaoedd a oedd yn aml yn hynod anodd a chymhleth.

Rhaid cydnabod fod y cwynion sy'n amlygu'r diffyg darpariaethau mewn rhai rhannau o'r sir yn tanlinellu unwaith yn rhagor pa mor argyfyngus ac anfoddhaol yw'r sefyllfaoedd rheini. Fodd bynnag gallaf roi sicrwydd i chi ein bod yn ceisio popeth o fewn ein gallu i ddatrys y sefyllfa yn y tymor byr, yn ogystal hefyd o chanfod atebion boddhaol ar gyfer y tymor hwy.

Tra nad yw'r negeseuon cyffredinol sydd i'w clywed yn codi o'r cwynion yn syndod, hyderwn eto fod y newidiadau sydd yn awr yn digwydd yn mynd i fynd ymhell tuag

at gyfarch a datrys llawer ohonynt yn y dyfodol. Ac maent hefyd yn tanlinellu unwaith yn rhagor wrth gwrs pa mor allweddol o hyd yw'r angen i gynyddu ein hymdrechion i godi ymwybyddiaeth ein dinasyddion o'r heriau yn y maes, cynnal sgwrs gyson gyda'n cymunedau, er mwyn iddynt ddod i ddeall yn llawnach rôl a chyfrifoldebau'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae gan y Cyngor nifer o fforymau a chyfleodd trwy y rhai y mae'n ymdrechu i ymgysylltu gyda thrigolion y sir, defnyddwyr gwasanaeth, a gofalwyr. Mae'r grŵp ymgysylltu yn weithredol er mwyn ceisio sicrhau fod gennym drosolwg o bopeth sydd ar waith. Drwy hyn, a thrwy dderbyn adborth cyffredinol o gynadleddau, holiaduron i ddarparwyr a theuluoedd, credaf fod gennym ddealltwriaeth eithaf cynhwysfawr o farn defnyddwyr ein gwasanaethau. Er hyn credaf fod gennym ddal le i wella ein harfer ar gyfer y flwyddyn nesaf. Roeddwn wedi gobeithio medru rhannu'r prif flaenoriaethau gyda phartneriaid a defnyddwyr gwasanaeth er medru asesu a yw ein blaenoriaethau'n wirioneddol gyson a phriodol. Yn wir credaf fod hyn yn rhywbeth y dylwn ei wneud yn gyson, ac felly rwyf wedi gofyn i'r grŵp ymgysylltu ystyried ffyrdd gwahanol o gyfathrebu blaenoriaethau'r adroddiad hwn yn ystod y flwyddyn sy'n dod gan dderbyn adborth a sylwadau wrth i'r flwyddyn fynd heibio.

Diolch am ddarllen yr adroddiad a gobeithio ei fod yn adlewyrchiad teg o'r sefyllfa a'n blaenoriaethau i'r dyfodol. Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwestiynau mae croeso i chi gysylltu â mi. I gael copi o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille, ar dâp neu mewn iaith arall cysylltwch â Rhion Glyn ar 01286 679074.